

EFFAITH COVID-19

Ar Sir Gâr

Medi 2020

PARCHU·DIOGELU· *Mwynhau*

Yn cadw Sir Gâr yn ddiogel

RESPECT·PROTECT· *Enjoy*

Keeping Carmarthenshire safe

carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



CYNNWYS

Cefndir a Chyflwyniad	3
Cipolwg ar yr effaith	6
Asesiad o'r effaith ar y gymuned:	
• Effaith ar y gymuned	7
• Effaith ar yr economi	16
• Effaith ar yr amgylchedd a seilwaith	26
• Effaith ar iechyd a lles	34
Creu cyngor gwell	46
Ailosod	52
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	53
COVID-19	54

CEFNDIR A CHYFLWYNIAD

DEALL EFFAITH COVID-19 YN SIR GÂR



Cyflwyniad gan Arweinydd y Cyngor Y Cyngorydd Emlyn Dole

Yn ddiaw mae hwn yn gyfnod digynsail a heriol. Ni feddyliais i erioed y byddwn yn gweld, yn ystod fy nghyfnod fel Arweinydd, y Cyngor yn sefydlu cyfleusterau ysbyty dros dro i gynorthwyo ein cydweithwyr yn y GIG.

Mae'n adeg gythryblus i bawb ohonom sy'n ceisio ymaddasu i 'normalrwydd' newydd, o leiaf am y tro, er mwyn helpu i warchod ein hunain, y bobl a garwn a'r cymunedau lle rydym ni'n byw.


Un peth a ddywedaf yw, yn wyneb heriau enfawr, rwyf wedi gweld ysbryd cymunedol hynod. Cymdogion yn helpu ei gilydd, cydweithwyr yn cynorthwyo ei gilydd, a dieithriaid yn dod o hyd i dir cyffredin.



Yn y ddogfen hon ein nod yw deall yn well beth yw effaith y pandemig ar y gymuned fel y'i gwelwn ar hyn o bryd. Wedyn byddwn yn adolygu'r prif flaenoriaethau a nodasom yn 'Symud Sir Gâr Ymlaen – Ein Cynllun 5 Mlynedd' er mwyn sicrhau bod ein ffocws byrdymor yn cynorthwyo'n llawn ag ymadfer o'r pandemig ac y caiff cynlluniau eu datblygu ar gyfer ymadfer yn y tymor canolig a'r tymor hirach.

Yn olaf, gair o rybudd. Ni wyddom o hyd ar ba gam o'r pandemig ydym ni.

Cyngor Sefydliad Iechyd y Byd ar y pandemig yw byddwch yn barod.




GAN SIR GÂR MAE'R NIFER LEIAF OND DWY O FARWOLAETHAU O COVID-19 YM MHOB 100,000 O BOBL YNG NGHYMRU

(@ 18/09/20)

Cyfraddau marwolaethau Covid-19 Cymru


Marwolaethau ym mhob 1,000 o bobl – a ddigwyddodd hyd at 18 Medi



Ffynhonnell: ONS, 29 Medi, heb eu safoni yn ôl oedran ac wedi'u seilio ar amcangyfrifon poblogaeth 2018



ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED



Mae pedwar categori rhyng-gysylltiedig o effaith y bydd angen i unigolion a chymunedau ymadfer ohonynt. Bydd natur yr effeithiau – ac a oes angen gweithredu ac ar ba lefel – yn dibynnu'n helaeth ar natur, maint a difrifoldeb yr argyfwng ei hun.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

[ADFERIAD YN DILYN COVID](#) – Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Wrth i'r Asesiad hwn gael ei gyhoeddi rydym yn byw trwy amgylchiadau anodd iawn. Mae llawer o'n hymatebion yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler tudalen 52). Mae'n werth nodi'n benodol y gweithio mewn partneriaeth, ymgysylltu â'r sector preifat i ddod o hyd i ddatrysiadau arloesol, ffyrdd newydd o weithio a defnyddio technoleg yn fwy wrth ddarparu gwasanaethau, y gostyngiad mewn allyriadau carbon, a'r rhaglenni sy'n gweithio gyda chymunedau i ddarparu gwasanaethau. Mae'r Ddeddf yn rhoi inni fframwaith a'r ffyrdd o weithio i sicrhau nad ydym, wrth ddiwallu anghenion y presennol, yn gwneud dim i lesteirio gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Fel y mae effeithiau COVID-19 yn parhau i ddangos, mae Cymru'n rhan o gymuned fyd-eang ac yn agored i dueddiadau sy'n digwydd ledled gweddill y byd fel y dirywiad ym myd natur, y newid yn yr hinsawdd a phrinder adnoddau, newidiadau mewn poblogaethau a newidiadau demograffig sy'n datblygu o hyd, tloedi ac anghydraddoldeb, a newid technolegol.

Mae ymadfer o'r pandemig yn cynnig cyfle unwaith mewn cenedlaeth i sicrhau newid ac ailgodi'n gryfach (gweler Ailosod ar dudalen 51).

CIPOLWG AR YR EFFAITH



Y GYMUNED



24 o Ganolfannau Gofal Plant gyda 450 o blant yn bresennol pob dydd 280 o staff yn bresennol pob dydd ar gyfartaledd




1,840 o liniaduron, Chromebooks, donglau ac ati wedi'u dosbarthu i ddisgyblion



Hawl i brydau ysgol am ddim wedi cynyddu 13.5% (643 o ddisgyblion) (ers Ionawr 2020)



Dim cynnydd sylweddol yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal na'r nifer ar y Gofrestr Amddiffyn Plant



YR ECONOMI



2,100 o alwyr busnes a phreswylwyr wedi cael cymorth trwy ein gwasanaeth Llinell Alwadau



108 o fusnesau wedi'u cynorthwyo gyda Grant Dechrau Busnes Llywodraeth Cymru gwerth £270,000



4,086 o daliadau wedi'u gwneud o dan y grant ardrethi busnes, cyfanswm o fwy na £46 miliwn



18,000 o bobl ar ffyrlo



YR AMGYLCHEDD A SEILWAITH



Gwelliant mewn ansawdd aer



Casgliadau gwastraff ymyl y ffordd wedi codi 20%



60% o gynnydd mewn cwynion am lygod mawr



150 o lanhawyr ychwanegol, 600 wedi eu hailhyfforddi



IECHYD A LLES



8,389 o barseli bwyd wedi eu dosbarthu i helpu pobl oedd yn gwarchod



Cadwasom mewn cysylltiad â 563 o'n cleientiaid o'r Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, treuliyd 1,439 o oriau yn eu galw a gwnaethpwyd 2,878 o alwadau ffôn



Gohiriwyd 600 o ymweliadau cyfun hylendid a safonau bwyd a 200 o ymweliadau porthiant anifeiliaid



Lleoliadau digartrefedd wedi codi 430%



CREU CYNGOR GWELL



701,000 o bobl wedi mynd i'n gwefan a chafwyd 15,539 o gofrestriadau newydd ar gyfer Fy Nghyfrif Hwb



150% yn fwy o negeseuon canmoliaethus



20% o gynnydd yn nifer y galwadau ffôn



47% yn llai o gwynion



Yn wyneb sefyllfa nad oedd neb erioed wedi dod ar ei thraws cyn y cyfyngiadau symud, un o'r pethau mwyaf calonogol a welwyd ledled Sir Gâr oedd ymateb cymunedau a gwirfoddolwyr. Mae gan Sir Gâr ymdeimlad cryf o gymuned erioed a daeth hwn yn amlycach byth yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud wrth i nifer o grwpiau cymunedol gael eu sefydlu, ar lein yn bennaf trwy lwyfannau fel Facebook, gyda'r nod o gynorthwyo pobl agored i niwed yn eu cymunedau. Gallai hyn ddarparu llwyfan ar gyfer cymorth cymunedol yn y dyfodol ond bydd angen ei gefnogi a'i hybu.


PLANT

Yn rhan o'r ymateb i COVID-19, sefydlodd Sir Gâr **13 o ganolfannau gofal plant** ar ddechrau cyfnod y cyfyngiadau symud **gan gynyddu'r nifer i 24** ychydig cyn i'r holl ysgolion ailagor ym mis Gorffennaf. Roedd y rhain ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm, ledled y sir, gan ddarparu gofal plant yr oedd mawr ei angen i blant gweithwyr allweddol yn ystod y pandemig. Arhosodd **4 lleoliad arbenigol** ar agor. Yn ystod yr argyfwng manteisiwyd ar y canolfannau a'r ddarpariaeth arbenigol gan **450 o ddisgyblion pob dydd ar gyfartaledd**, gan gynnwys mwy na **250 o ddysgwyr agored i niwed**. Yn gofalu am y disgyblion hyn roedd **280 o aelodau o'r staff pob dydd oedd yn gweithio dwy sesiwn hanner diwrnod**.

Erbyn diwedd mis Mehefin, roedd **1,603 o ddyfeisiau gan gynnwys gliniaduron, Chromebooks, ac ati** yn ogystal â **240 o ddonglau MiFi 4G** wedi cael eu darparu i gynorthwyo teuluoedd â dysgu o bell ledled Sir Gâr.

Dechrau'n Deg Sir Gâr oedd y rhaglen Dechrau'n Deg gyntaf yng Nghymru i ddefnyddio ap i ddyfeisiau symudol i helpu i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd. Datblygodd y tîm yr ap fel ffordd o gynyddu ymgysylltiad ac i gyfeirio teuluoedd at wybodaeth bwysig a hyrwyddo digwyddiadau yn yr ardaloedd lleol.

Addasodd Dechrau'n Deg ganolfannau gofal plant i ddarparu gofal i blant cyn-ysgol agored i niwed a phlant cyn-ysgol gweithwyr hanfodol. Yn ystod un wythnos ym mis Gorffennaf, cafodd **632** o blant cyn-ysgol **gweithwyr hanfodol** a **37** o blant cyn-ysgol **agored i niwed** eu cynorthwyo mewn **93 o leoliadau preifat** gan gynnwys Gwarchodwyr Plant, Cylchoedd Meithrin, meithrinfeydd dydd a 3 Chanolfan Gofal Plant Dechrau'n Deg wedi'u haddasu.



Arhosodd **clybiau gwyliau'r haf** ar agor i rieni oedd yn talu ffioedd drwy gydol yr haf. Mae hyn wedi bod yn heriol oherwydd yr angen i weithredu gyda llai o leoedd oherwydd gofynion cadw pellter cymdeithasol a heriau gan gynnwys cyfarpar diogelu personol, gwaith glanhau ychwanegol ac ati.

Beth yw'r effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir?

Mae'n anodd rhagweld ar hyn o bryd beth fydd effaith y pandemig ar y sector gofal plant. Gwyddom eisoes fod dwy feithrinfa dydd a phedwar gwarchodwr plant lleol wedi cau a'u bod yn y broses o ddatgofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Ychydig llai na 100 o leoedd cofrestredig yw hyn, ac mae'n bosibl y gwelwn ragor o ostyngiad yn nifer y darparwyr gofal plant a lleoedd gofal plant cofrestredig fydd ar gael yn Sir Gâr yn y dyfodol agos. Rhagwelwn y bydd ar y sector angen cymorth sylweddol o hyd i ymadfer o gyfnod heriol ac ansicr iawn. Gwyddom am y rhan hanfodol mae gofal plant yn ei chwarae wrth alluogi rhieni i ddychwelyd i'r gwaith ac wrth ailgychwyn yr economi. Bydd hyfywedd yn y tymor hirach yn cael ei benderfynu gan y galw am ofal plant a gallu rhieni i dalu am y gwasanaeth hwn. Gyda phryderon cynyddol am ansicrwydd swyddi a chynnydd mewn diweithdra, mae'r sector gofal plant yn dal i fod yn fregus. Bydd parhad

yng nghronfa grantiau caledi a dechrau busnes, yn ogystal â chyngor a chymorth gan Swyddogion Datblygu Gofal Plant sydd â gwybodaeth benodol i'r sector, oddi wrth yr Awdurdod Lleol yn hanfodol i alluogi darparwyr i aros yn gynaliadwy. Fel Awdurdod Lleol, mae dyletswydd digonolrwydd gofal plant statudol arnom. Rydym wedi gweithio'n galed dros y deng mlynedd diwethaf i gynyddu'r ddarpariaeth, yn arbennig y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Bydd y cymorth ac ymrwymiad parhaus hwn yn hanfodol wrth inni symud ymlaen.

SUT YR YDYM WEDI HELPŪ

Helpu busnes sy'n dechrau – Buttercup Day Nursery



Dechreuodd cyfarwyddwyr *Buttercup Day Nursery* Michelle Howell a Jacqueline O'Flynn y busnes ym mis Medi 2019 ar ôl dod o hyd i adeilad segur ar gyrion Llanelli a fyddai'n lle delfrydol i sefydlu meithrinfa gofal plant ddwyieithog newydd.

Roedd cymorth a chefnogaeth *Grant Dechrau Busnes Sir Gâr* o £10,000 a ddyfarnwyd ym mis Medi 2019 yn golygu y gellid dechrau adnewyddu'r adeilad yn Heol Newydd, Llanelli. Cynorthwyodd y grant â phrynu cegin newydd, lloriau, gwaith plymio/gwresogi a chyfarpar TG er mwyn defnyddio'r adeilad eto a bodloni'r gofynion i agor y feithrinfa. Cwblhaodd y busnes yr holl waith a

chafodd gymeradwyaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru i agor ym mis Ebrill 2020.

Roedd y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth yn golygu y bu'n rhaid gohirio'r agoriad arfaethedig am gyfnod amhenodol. Ac yntau'n fusnes newydd nid oedd Buttercup Day Nursery yn gymwys ar gyfer llawer o'r cynlluniau cymorth a gynigiwyd, felly ceisiodd gymorth trwy'r llinell gymorth COVID yr oedd y Cyngor newydd ei sefydlu i gael cymorth a chyngor busnes.

Ar ôl lansiad cronfa Dechrau Busnes COVID a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin, sy'n cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Gâr, cysylltwyd â Buttercup Day Nursery ac fe'i cynghorwyd i wneud cais gan ei bod yn bodloni'r meini prawf. Drwy'r cynllun hwn mae wedi cael £2,500 ac oherwydd canllawiau diweddar gan Lywodraeth Cymru, mae'r feithrinfa wedi gallu agor ei drysau ar 29 Mehefin a chrosawu ei grŵp cyntaf o blant.

Mae'r cyfarwyddwyr Michelle Howell a Jackie O'Flynn yn gobeithio y gallan nhw groesawu llawer mwy o blant cyn bo hir. Bydd y feithrinfa ar agor drwy gydol yr haf i blant 0-8 oed ac ar hyn o bryd maen nhw'n ceisio recriwtio staff yn barod at yr adeg y gallan nhw gymryd mwy o blant. Mae agor ym mis Mehefin 2020 wedi golygu eu bod wedi llwyddo i greu 2 swydd yn yr hinsawdd hon ond maen nhw'n gobeithio creu mwy erbyn diwedd y flwyddyn.

Dywedodd y cyfarwyddwyr, Michelle a Jackie, "Rydyn ni mor ddiolchgar i Gyngor Sir Gâr am y cymorth maen nhw wedi'i roi sydd wedi caniatáu inni orffen y gwaith ac agor y feithrinfa. Rydyn ni wedi llwyddo i gadw ein pennau uwchben y dŵr yn y cyfnod anodd hwn ac i allu croesawu'r plant cyntaf ym mis Mehefin. Mae wedi bod yn waith caled ond yn wych. Mae eu cymorth wedi bod yn werthfawr iawn ac wedi caniatáu inni greu swyddi yn yr hinsawdd hon a gobeithio cyn bo hir y byddwn yn croesawu llawer mwy o blant i'n meithrinfa."

LLES DISGYBLION A MYFYRWYR

Wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen mae darlun cymysg yn dod i'r amlwg o'r effeithiau mae'r cyfyngiadau symud, sylw yn y cyfryngau a tharfu ar drefnau arferol yn eu cael ar les plant a phobl ifanc.


Mae nifer yr atgyfeiriadau i gael cwnsela wedi gostwng yn aruthrol ers dechrau'r pandemig COVID-19. Cafwyd 167 o atgyfeiriadau rhwng 23 Mawrth ac 17 Gorffennaf, gan gynnwys 15 o blant ysgol gynradd, a chafodd 206 o blant a phobl ifanc gwnsela o gymharu â 620 rhwng Ebrill a Mehefin 2019.

Ar ôl ymgynghori, cytunwyd y dylid cynnig cwnsela o bell trwy gynadledda fideo/sain neu dros y ffôn. Rydym wedi gallu cymryd ymholiadau oddi wrth rieni/gwarcheidwaid, staff ysgolion, gweithwyr iechyd proffesiynol ac eraill, sydd wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi ein galluogi i hwyluso atgyfeiriadau yn y ffordd hawsaf posibl.

Er mwyn canfod yr effaith fyrdymor bresennol cynhaliwyd **Arolwg Rhieni** gyda rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion a chafwyd **4,433 ymatebion**. Gofynnwyd beth yn eu barn nhw sy'n cael yr effaith fwyaf ar les ac iechyd meddwl eu plentyn/plant. Dangosir y canlyniadau yn y siart bar isod.

Nododd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr mai'r hyn sy'n achosi'r effaith fwyaf ar les eu plentyn/plant yw **na allan nhw fod gyda'u ffrindiau a'u cyfoedion (83%)**.

Nododd rhieni/gofalwyr /gwarcheidwaid hefyd mai plant yn gweld eisiau aelodau o'u teuluoedd (62%), diffyg trefn arferol a strwythur i'r diwrnod (53%), poeni am ddal COVID-19 eu hunain neu am anwyliaid yn ei ddal (43%) a gweld eisiau clybiau ar ôl ysgol (33%) oedd y pum peth a gofnodwyd mwyaf. Y pethau a gofnodwyd lleiaf oedd poeni am arian (2%) a meddwl am y brifysgol neu'r coleg (6%).



Beth yw'r effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir?

Mae'n anodd canfod yr effaith yn y tymor canolig a'r tymor hir ar blant, pobl ifanc a staff addysg, o ganlyniad i'r pandemig. Gwyddom fod rhai rhieni a gofalwyr yn ei chael yn anodd cynorthwyo â dysgu uniongyrchol gartref am gyfnod hir, yn arbennig lle maen nhw fel rhieni a gofalwyr hefyd yn gweithio gartref. Fodd bynnag, mae rhai o'r rheiny sy'n byw yng nghefn gwlad, ar y cyd â'r tywydd cynnes, wedi dweud y bu eu profiad yn gadarnhaol iawn. Wrth i ysgolion ail-agor o 29 Mehefin ymlaen cafodd disgyblion gyfle i ailgydio, dal i fyny a pharatoi. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y plant hynny a aeth i'r ysgol wedi gwerthfawrogi'r cyfle hwn. Mae'n bosibl y bydd hyn yn helpu i leihau'r effaith ar ddisgyblion a staff pan fydd yr ysgolion yn ailagor yn llawn ym mis Medi 2020. Ni wyddys beth fydd yr effaith yn y tymor hirach ar les a'r sgil-ffeithiau posibl ar ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad ond bydd angen monitro hyn yn fanwl.

PRYDAU YSGOL AM DDIM

Gall hawl i gael prydau ysgol am ddim fod yn un o ddangosyddion amddifadedd, lle gall incwm teulu gael effaith ar gyrhaeddiad plant. O ganlyniad i COVID-19 mae llawer o deuluoedd mewn caledi ariannol erbyn hyn wrth i rieni gael eu rhoi ar ffyrlo neu golli swyddi. O ganlyniad, rydym yn debyg o weld cynnydd yn nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac yn y nifer fydd yn cael prydau ysgol am ddim.

Yn 2019/20, roedd gan Sir Gâr 17.4% o blant (4,771 o ddisgyblion) oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â chanran Cymru sef 18%. Fodd bynnag, ar 14 Gorffennaf 2020, bu **cynnydd o 13.5%** gyda **643 o ddisgyblion cymwys** ychwanegol yn Sir Gâr ers mis Ionawr 2020.

**Casglwyd y data ar ddiwrnod y cyfrifiad yn ystod mis Ionawr 2019 a 2020, ffynhonnell: CYBLD, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Llywodraeth Cymru. Cafwyd data mis Gorffennaf o'r System Gwybodaeth Reoli Ysgolion ganolog.*

Gellir priodoli'r cynnydd yn nifer y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim i'r ffordd y mae'r prydau wedi cael eu dosbarthu ers i ysgolion gau oherwydd y cyfyngiadau symud. Ar ôl cyfnod cychwynnol o 5 wythnos pan ddarparwyd Pecynnau Bwyd i'w casglu gan deuluoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim, cyflwynwyd system o daliadau trwy BACS (taliadau uniongyrchol), gyda rhai teuluoedd yn cael eu hystyried yn agored i niwed neu'n gwarchod eu hunain, a theuluoedd oedd â cheisiadau am daliadau oedd heb eu penderfynu yn dal i gael Pecynnau Bwyd wedi'u danfon i'w cartrefi.

Ar 14 Gorffennaf, mae 2,558 o daliadau BACS yn cael eu rhoi pob pythefnos ar gyfer 4,615 o ddisgyblion. Mae hyn yn gyfwerth â chanran o 85.3% sy'n eu cael. Mae 4,643 o Becynnau Bwyd wythnosol wedi cael eu danfon yn y cyfnod 4 Mai i 14 Gorffennaf. Cyn 4 Mai (ers 23 Mawrth) danfonwyd 7,487 o Becynnau Bwyd a chasglwyd 10,100 o Becynnau Bwyd eraill. Roedd 563 o deuluoedd â hawliadau gweithredol am brydau ysgol am ddim nad ydym wedi gallu cysylltu â nhw. Nid yw'r teuluoedd hyn wedi cysylltu â ni nac wedi dweud nad oes arnyn nhw angen taliadau neu Becynnau Bwyd.

Beth yw'r effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir?

Yn y tymor byr a'r tymor canolig, disgwylir y bydd nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cynyddu. Wrth i ddiweithdra gynyddu bydd mwy o deuluoedd yn wynebu caledi ariannol. Wrth i'r cynllun ffyrlo ddod i ben mae'n bosibl y bydd cynnydd yn y nifer fydd yn gymwys yn ystod mis Awst, mis Medi a mis Hydref.

Bydd mwy o blant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y tymor hir. Gwyddys fod incwm teuluoedd yn gysylltiedig â chyrhaeddiad addysgol plant, a bod plant o gefndiroedd llai cefnog, ar gyfartaledd, yn llai tebyg o gyflawni'n dda yn yr ysgol na phlant o deuluoedd ag incwm uwch. Bydd yr angen i leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydyn nhw'n gymwys i'w cael yn bwysig yn y tymor hir.

DILYNIANT DYSGU

Roedd adeiladau ysgolion ar gau o 23 Mawrth i 29 Mehefin 2020. Er mwyn lleihau'r effaith ar ddysgu disgyblion gymaint ag oedd yn bosibl, cafodd Cynllun Dilyniant Dysgu ei roi ar waith yn gyflym, gan ymdrin â'r canlynol:

- Y cwricwlwm a dysgu ac addysgu
- Staffio a dysgu proffesiynol
- Lles
- Cysylltedd
- Rhannu a chydweithio

Beth yw'r effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir?

Ar hyn o bryd mae'r dystiolaeth ynghylch llithro'n ôl mewn dysgu ac unrhyw golledion yn ansoddol ac yn gymharol anecdotaidd ac yn amrywio o'r naill ddysgwr i'r llall ac o ysgol i ysgol. Mae ffigurau presenoldeb wedi bod yn amrywiol ac felly hefyd cymryd rhan mewn dysgu o bell. Pan fydd bron pob un o'n dysgwyr yn ôl amser llawn, un rhan bwysig o ymagwedd ysgolion ym mis Medi fydd rhoi ar waith dull dysgu a ysgogir gan bwrpas, a fydd yn adeiladu profiadau dysgu o gwmpas - gwiriadau lles i'r garfan gyfan, ail-sefydlu perthnasoedd, bwrw amcan o ffitrwydd disgyblion i ddysgu a beth sy'n bwysig iddyn nhw ei ddysgu, gan ystyried eu hanghenion presennol a datblygol ar hyn o bryd.

Gan fabwysiadu dull a gaiff ei lywio gan ymchwil, rydym hefyd yn edrych ar sut y gallwn ganolbwyntio ar agweddau allweddol ar y tri chymhwysedd traws-gwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd, cymhwysed digidol) a sut y gellir defnyddio methodolegau dysgu cyflym mewn modd cynaliadwy. Byddir yn ystyried mabwysiadu prif briodoleddau'r cwricwlwm newydd i Gymru yn gyntaf ac adolygu cymwyseddau dysgu 21ain ganrif eraill a sut y gall egwyddorion allweddol gynorthwyo â sicrhau bod dysgwyr yn dal i fyny ac na chaiff neb ei adael ar ôl. Bydd asesiadau athrawon mwy ffurfiol ac asesiadau sy'n destun arholi a chymedroli allanol yn y flwyddyn academaidd newydd yn ein cynorthwyo i greu darlun cadarn o effaith y pandemig ar ddysgu, a fydd yn helpu i ganolbwyntio ar gamau adferol i unigolion, grwpiau, dosbarthiadau a charfannau ehangach blynyddoedd ac ysgolion.

Rydym wedi comisiynu adolygiad allanol annibynnol o'n hadran Addysg a Gwasanaethau Plant mewn ymateb i'r pandemig. Mae Estyn hefyd yn cynnal adolygiad Cymru gyfan gyda chylch gorchwyl gwahanol.

MODERNEIDDIO GWASANAETHAU ADDYSG

O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, cafodd holl aelodau tîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg eu symud i feysydd hanfodol eraill yn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant ac o'r herwydd dim ond ychydig iawn o waith prosiect yr oedd modd iddynt ei gyflawni. Mae tîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn dadansoddi'r effaith y bydd gohirio fel hyn yn ei chael ar y rhaglen buddsoddi.

O ran ein rhaglen buddsoddi, cafodd yr holl brosiectau addysg oedd â chontractwyr ar y safle ar adeg dechrau'r cyfyngiadau symud eu cau gan y contractwyr. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, rydym wedi gweithio gyda chontractwyr i sicrhau bod trefniadau gweithio diogel ar waith i'w gwneud yn bosibl ailddechrau pob prosiect mor fuan ag sy'n bosibl, o gofio'r sefyllfa o ran y gadwyn gyflenwi, is-gontractwyr a ffactorau eraill. Disgwylir y bydd oedi i ddyddiad cwblhau prosiectau yn ogystal â chynnydd yng nghyfanswm costau prosiectau. O ganlyniad, disgwylir y bydd y pandemig yn cael effaith sylweddol ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn nhermau cyllid ac amserlenni.

Beth yw'r effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir?

Yn ystod tymor yr hydref, bydd tîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn cyflawni'r holl waith a gynlluniwyd cyn y pandemig a bydd yn gweithio ar ddatblygu'r Adolygiad o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg ac amserlenni newydd ar gyfer yr ymgynghoriadau statudol a ohiriwyd. Y gobaith hefyd yw y gellir ymdrin â'r holl faterion cysylltiedig â phrosiectau perthnasol yn unol ag amserlen sydd mor agos at yr un wreiddiol ag sy'n bosibl.

GWASANAETHAU PLANT

Mae nifer y cysylltiadau newydd ag adran gofal cymdeithasol plant Sir Gâr wedi cynyddu 19.2% ers dechrau'r cyfyngiadau symud (h.y. 23/3/20 - 30/6/20) o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Cynyddodd nifer y cysylltiadau diogelu 26.6% hefyd. Mae nifer y ceisiadau am Aseidiadau wedi aros yr un peth.

Er na fu unrhyw gynnydd sylweddol yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal na'r nifer sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, rhagwelir y bydd cynnydd yn y tymor hirach oherwydd effaith economaidd-gymdeithasol ehangach COVID-19.

Beth yw'r effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir?

Gan fod y gwasanaeth wedi parhau drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud, roedd yr achosion oedd yn peri'r pryder mwyaf wedi parhau i gael cymorth. Llai felly i achosion eraill. Y gwir yw y bydd diffyg cymorth efallai'n golygu y bydd achosion a allai fod wedi aros ym mhen isaf y gwasanaethau atal yn galw am ymyrraeth gan y gwasanaeth statudol yn y tymor hirach. Cefnogir hyn gan dystiolaeth o'r cynnydd mewn atgyfeiriadau camdriniaeth ddomestig.

Mae gweithwyr cymdeithasol yn dibynnu llawer ar gysylltiadau uniongyrchol anffurfiol a ffurfiol gyda'r teuluoedd a'r plant maen nhw'n gweithio gyda nhw a gyda chydweithwyr mewnol ac allanol. Mae bod heb y cysylltiadau uniongyrchol hyn yn debyg o arwain at ymyrraeth lai effeithiol a mwy o bwysau ar staff gwaith cymdeithasol.

POBL IFANC

Mae COVID-19 wedi achosi tarfu sylweddol ar fywyd teuluol. Rydym ni'n ymwybodol bod teuluoedd yn cael trafferth gyda phroblemau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl ac mae atgyfeiriadau at wasanaethau lles yn cynyddu.

Er bod addysgu wyneb yn wyneb wedi dod i ben am y tro, mae [colegau a phrifysgolion](#) yn symud i ddarpariaeth ar-lein lle bynnag y bo modd. Rhagwelir y bydd yn bosibl i Sefydliadau Addysg Uwch ailagor eu hamgylcheddau dysgu, campysau a chyfleusterau eraill ac ar yr un pryd cadw at y canllawiau o ran cyfyngiadau a chadw pellter corfforol a chymdeithasol a chanllawiau eraill y Llywodraeth, y mae'n rhaid i Sefydliadau Addysg Uwch roi sylw iddynt. [Canllawiau ar addysg uwch: Diogelu Cymru](#)

OEDRAN GWEITHIO

Mae dadansoddiad o ddemograffeg y rheiny sy'n gweithio yn y sectorau mae cyfyngiadau symud wedi effeithio arny'n nhw yn dangos bod y rhan fwyaf yn fenywod, rhwng 25 a 34 oed. Gyda chynnydd anochel mewn diweithdra.

Ceir rhagor o wybodaeth o dan Yr Economi

POBL DDUON AC ASIAIDD A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG (BAME)

Mae dadansoddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod **rîsg marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19** ymysg rhai grwpiau ethnig, yng Nghymru a Lloegr, yn sylweddol uwch na rîsg grwpiau o ethnigrwydd Gwyn. Esbonnir y gwahaniaeth hwn yn rhannol gan ffactorau economaidd gymdeithasol, lleoliad daearyddol ac amgylchiadau eraill, ond mae rhan o'r gwahaniaeth heb ei hesbonio o hyd.

Mae'r data hyn i Gymru gyfan ac nid ydynt ar gael ar lefel Sir Gâr. Maent yn dangos bod pobl o bob grŵp lleiafrifoedd ethnig, ac eithrio Tsieineaidd a Chymysg, â mwy o rîsg marw o COVID-19. Yn benodol, mae pobl dduon bron dwywaith mor debyg o wynebu marwolaeth gysylltiedig â COVID-19, gan gymryd gwahanol ffactorau cymdeithasol a daearyddol i ystyriaeth. Wedyn daw'r gymuned Bangladeshi/Pacistani sy'n fwy nag unwaith a hanner yn fwy tebyg o farw o'r coronafeirws. Mae Sipsiwn a Theithwyr hefyd yn ethnigrwydd ac mae ganddynt hwythau rîsg gymharol uchel o gael y coronafeirws yn nhermau problemau iechyd sylfaenol a ffactorau diwylliannol. Efallai ei bod yn werth tynnu sylw at sectorau hefyd, er enghraifft y rîsgiau mwy i bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n gweithio mewn amrywiaeth o sectorau fel iechyd a gofal cymdeithasol, prosesu cig, gyrwyr tacsis ac ati. [Stats Cymru - COVID-19 a'r boblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig](#)

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 1.9% (oddeutu 3,500) o boblogaeth Sir Gâr o grwpiau cymysg neu grwpiau ethnig eraill.

LEDLED Y GYMUNED

O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, mae unigrwydd ac ynysigrwydd ymysg pobl o bob oed wedi bod yn broblem fawr.

Mae nifer o wledydd mae COVID-19 wedi effeithio arnyn nhw wedi gweld [cynnydd yn lefelau trais yn y cartref](#), gan gynnwys trais yn erbyn plant, trais gan bartneriaid rhywiol a thrais yn erbyn pobl hŷn. Mae angen ymateb aml-sectorol i hyn er mwyn ei atal a/neu ei liniaru. Fodd bynnag, nid felly y bu yn lleol nac ar draws Cymru. Nid yw ein darparwyr gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol lleol wedi sôn am unrhyw gynnydd yn y galw, ac mae gwasanaethau trais rhywiol wedi gweld gostyngiad sylweddol. O safbwynt cenedlaethol, mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cofnodi amgylchiadau tebyg ledled Cymru. Mae Heddlu Dyfed Powys hefyd wedi sôn am lai o gofnodion o achosion o gam-drin domestig ar draws y rhanbarth, gyda'r nifer yn dychwelyd yn araf i'r lefelau a welwyd cyn dyfodiad COVID-19 yn yr wythnosau diwethaf.

[Llythrennedd a chynhwysiant digidol](#) – gellid dadlau mai'r rheiny sydd â'r mwyaf i'w ennill o ddefnyddio gwasanaethau digidol yw'r rhai lleiaf tebyg o allu gwneud. Mae ymchwil gan Lywodraeth Cymru'n dangos nad oes gan 13% o aelwydydd fynediad at y rhyngwrdd. Nid yw 51% o bobl hŷn na 75 oed yn defnyddio'r rhyngwrdd.

Mae angen inni gynorthwyo cymunedau lleol i ddod yn fwy hunan-gydnerth gyda chadwyni cyflenwi lleol cynaliadwy.

CYMORTH CYMUNEDOL

Ledled Sir Gâr, mae cymunedau a busnesau wedi dod ynghyd i helpu lle bynnag y gallan nhw, gan gynnig cymorth ymarferol a chymorth emosiynol.

Mae'r [wefan a sefydlwyd ar gyfer Cymorth Cymunedol](#) yn dangos amrywiaeth y busnesau sy'n mynd yr ail filltir a Grwpiau Cymorth Cymunedol COVID-19. Cofrestrodd mwy na 1,000 yn Sir Gâr ar wefan *Gwirfoddoli Cymru*, a gwirfoddolodd llawer mwy yn eu cymunedau lleol, nifer ddirifedi. Mae mwy na 300 o grwpiau Facebook a mwy na 100 o Gyfeillachwyr Ffôn.

Rhywfaint o'r gwaith mae'r Timau Ardal wedi'i gyflawni:


- Creu cyfeiriadur ar-lein o fentrau bwyd a chymunedol i gynorthwyo preswylwyr yng nghefn gwlad
- Cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd â chynghorau tref a chymuned er mwyn canfod nifer y gwirfoddolwyr, cynorthwyo'r bobl fwyaf agored i niwed a gweithredu fel cyfrwng cysylltu
- Cydgysylltu gyrwyr i gynorthwyo siopau bwyd gyda'u gallu i ddanfôn nwyddau i'r bobl fwyaf agored i niwed; roedd mwy na 1,300 o ddanfoniadau wedi cael eu trefnu erbyn diwedd mis Gorffennaf
- Cysylltu â mwy na 90 o gynhyrchwyr bwyd a diod i ganfod y gallu i gyflenwi siopau bwyd lleol – cafodd rhestr ei chynhyrchu a'i dosbarthu i siopau lleol
- Gweithio gyda CGGSG i weinyddu'r gronfa ymateb i COVID-19
- Cynnal arolwg o effaith COVID-19 ar y trydydd sector
- Cynorthwyo gweithwyr allweddol yng nghefn gwlad oedd yn cael anawsterau gyda chysylltedd digidol trwy ddsbarthu llwybryddion 4G trwy gynllun peilot gan Lywodraeth Cymru
- Cynorthwyo cymunedau gwledig i wella cysylltedd digidol trwy fynd ati i hyrwyddo'r [Rural Gigabit Voucher Scheme](#), ac annog preswylwyr i gofrestru eu diddordeb mewn uwchraddiad band eang.






Gwnaeth *Trap WI and Llandyfan Sew Good* gais am arian i ehangu eu gwaith o gynhyrchu masgiau wyneb i gynnwys cymunedau Derwydd, Llandyfan a Thrap

Gweithiwr leuenctid *Lorna Hosken-Thomas* oedd yn cynorthwyo pobl agored i niwed leol trwy gasglu eu harchebion bwyd o siopau lleol a danfon nwyddau





Erbyn mis Mawrth 2020 ar ôl i'r pandemig COVID-19 ledu i'r Deyrnas Unedig tua diwedd mis Ionawr, roedd maint y pandemig eisoes wedi achosi i fusnesau newid eu harferion gweithio, fel anfon staff adref i weithio. Ar 23 Mawrth gosododd llywodraeth y Deyrnas Unedig gyfyngiadau symud, gan wahardd unrhyw deithio 'anhanfodol'. Roedd yr effaith a gafodd hyn ar fusnesau, swyddi a'r economi yn ddifrifol, ac roedd nifer sylweddol o fusnesau naill ai wedi cael eu gorfodi i gau, neu wedi dewis cau – yn fwyaf nodedig yn y *sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden*.

Mae busnesau yn Sir Gâr fel arfer yn llai (hyd at 9 cyflogai) na busnesau ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Y rhain yw 91.4% o'r holl fusnesau yn Sir Gâr, sydd oddeutu 2% yn uwch na'r ganran gyfatebol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r sectorau *Iechyd a Manwerthu* yn arbennig o bwysig yn Sir Gâr, gyda mwy na 30% o'r holl gyflogaeth gyda'i gilydd (25% yng Nghymru). Er mai un o'r sectorau lleiaf yw *Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota* o ran cyflogaeth yn gyfan, mae'r gyfran o bobl sy'n gweithio yn y sector hwn yn Sir Gâr *bron dwywaith* y cyfartaledd cenedlaethol (2.9% o gymharu ag 1.5%).

Y gwirionedd trist am y sefyllfa yw y bydd llawer o fusnesau'n methu, a bydd eraill yn cymryd amser hir i fynd yn ôl i le roedden nhw. Mewn gwrthgyferbyniad, gwelwyd twf mewn cyflogaeth mewn rhai rhannau o'r economi, gan gynnwys dosbarthu, manwerthu ar-lein a gofal iechyd. Ni wyddys i ba raddau mae'r twf hwn yn beth byrdymor ac mae tystiolaeth yn awgrymu y gall y twf dros dro hwn mewn cyflogaeth fod yn arafu.

Bydd yna heriau economaidd i Sir Gâr, a bydd eu heffeithiau'n amlwg ymhell ar ôl i'r pandemig ddod i ben. Mae'n bosibl y bydd yn cymryd misoedd i incwm aelwydydd ailgodi i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig, gan arwain at lai o incwm gwario sy'n bwydo'r economi leol. Yn y sefyllfa hon, mae unigolion yn llai tebyg o brynu eitemau sy'n anhanfodol yn eu barn nhw. Felly byddai'n gall hyrwyddo neges 'prynwch yn lleol' ar gyfer eitemau hanfodol. Byddai hyn yn ysgogi twf yn lleol, gan arwain at ddyfodol economaidd mwy sefydlog i fusnesau lleol a'u staff. Drwy weithredu ar y cyd â'n partneriaid, gallwn gymryd camau i adfer hyder prynwyr a busnesau er mwyn ysgogi buddsoddiad yn ein heconomïau, a fydd yn creu cyflogaeth ac yn helpu pobl ddi-waith i ddod o hyd i swyddi newydd.

Wrth i lawer o sefydliadau a busnesau allu sicrhau y gallai eu staff weithio gartref yn ystod y cyfyngiadau symud cychwynnol a'r lliniaru rhannol sy'n parhau, mae rhai busnesau yn y cymunedau cartref hynny megis cyflenwyr bwyd wedi gweld budd economaidd. Os bydd gweithio gartref yn cael ei ganiatáu yn y tymor hirach, gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar fusnesau yn y gymuned leol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn cymryd lle'r busnes a gollwyd gan rai cwmnïau o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud oherwydd llai o ymwelwyr a phrynu arferol gan gwsmeriaid sy'n mynd heibio. At hynny, mae llawer o fusnesau wedi gorfod addasu eu ffyrdd o weithio ac mae'r rheiny sydd wedi gallu datblygu eu harlwy ar-lein wedi gweld budd o ran cynyddu eu cynulleidfa a'u sylfaen cwsmeriaid wrth i lawer ddefnyddio llwyfannau rhithwir i hyrwyddo a gwerthu eu cynnyrch. Gellid defnyddio hyn yn y dyfodol i ategu siopau a busnesau ffisegol yn ein trefi a'n cymunedau lleol.

Mewn rhai meysydd bydd angen herio ffyrdd presennol o weithio a rheoliadau i sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i fusnesau lleol, a'i gwneud mor syml ag sy'n bosibl i fusnesau agor ac ehangu yn Sir Gâr. Nawr yw'r adeg i sicrhau newid go iawn, ac i wneud gwahaniaeth rhaid inni fod yn ddigon dewr i herio'r norm. Bydd angen hefyd sicrhau bod rhywfaint o adnoddau ariannol ar gael i gynorthwyo rhai gweithgareddau a mentrau er mwyn ymateb i'r heriau a nodir.

DIWEITHDRA YN SIR GÂR



Ardal	Lefel Ebrill 2019	Lefel Ebrill 2020
Sir Gâr	2,420	5,495
Cymru	53,770	104,305
Y Deyrnas Unedig	1,106,610	2,117,360

Mae'r tabl yn dangos dadansoddiad o lefelau hawlwyr ym mis Ebrill 2020 o gymharu â'r un adeg y llynedd, sy'n helpu i ddangos bod y cynnydd sylweddol a welwyd yn Sir Gâr yn ganlyniad i'r pandemig yn ôl pob tebyg.

Mae nifer o ffactorau a allai fod wedi cael effaith ar y lefelau diweithdra yma:

- mae gan ein heconomi gyfran uwch na'r cyfartaledd o unigolion hunangyflogedig (12.4% o gymharu â 9.6% yng Nghymru), y mae llawer ohonyn nhw wedi gorfod hawlio budd-daliadau cysylltiedig â diweithdra.
- mae'r sectorau hynny a gaewyd o ganlyniad i'r pandemig yn cynnig swyddi i ryw 25,000 o bobl (sef 37% o'r holl weithlu). Felly mae'n realistig awgrymu, er y bydd cyfran o'r rheiny wedi bod ar ffyrlo, mae ffigurau Cyllid a Thollau EM Gorffennaf 2020 yn dangos bod 18,000 o bobl wedi bod ar ffyrlo yn Sir Gâr, y gwahaniaeth mae'n debyg fydd yr unigolion hynny sy'n hawlio'r budd-daliadau hyn, gyda chynnydd sylweddol yn debygol yn y misoedd i ddod.

Nifer ar ffyrlo ym mhob 1,000 o bobl


Ardal	Nifer ar ffyrlo	Nifer ar ffyrlo ym mhob 1,000 o bobl
Castell-nedd Port Talbot	12,700	88.6
Ceredigion	6,500	89.4
Ynys Môn	6,400	91.4
Abertawe	23,000	93.1
Blaenau Gwent	6,600	94.5
Sir Gâr	18,000	95.4
Sir Fynwy	9,100	96.2
Rhondda Cynon Taf	23,400	97.0
Caerdydd	36,000	98.1
Bro Morgannwg	13,200	98.8
Caerffili	17,900	98.9
Powys	13,100	98.9
Merthyr Tudful	6,000	99.5
Sir Ddinbych	9,800	102.4
Sir Penfro	12,900	102.5
Pen-y-bont ar Ogwr	15,300	104.0
Torfaen	9,900	105.4
Gwynedd	13,300	106.8
Casnewydd	16,600	107.3
Wrecsam	15,100	111.1
Conwy	13,200	112.6
Sir y Fflint	18,800	120.4
Cymru	316,800	100.5

Mae'r nifer ar ffyrlo yn Sir Gâr ym mhob 1,000 o bobl yn llai na chyfartaledd Cymru

Jul-20


1,200% o gynnydd yn nifer yr hawlwr Credyd Cynhwysol mewn 19 mis

Mae nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn Sir Gâr wedi cynyddu'n sydyn yn ystod y pandemig COVID-19. Roedd 1,017 o bobl yn hawlio Credyd Cynhwysol ym mis Ionawr 2019, gwelwyd cynnydd graddol hyd at fis Mawrth 2020 i 6,975 a chynnydd i 13,319 ym mis Gorffennaf 2020 (ffigur dros dro).



58% o ostyngiad yn y nifer sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith mewn 15 mis

Mae gostyngiad graddol wedi bod yn nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn Sir Gâr yn ystod y pandemig COVID-19. Roedd 1,600 o bobl yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ym mis Ionawr 2019, gan ostwng i 678 ym mis Mawrth 2020 ar ddechrau'r pandemig. Ers diwedd mis Ebrill 2020, mae'r ffigurau wedi cynyddu ychydig i 918 ar ddiwedd mis Gorffennaf, sy'n dal i fod 43% yn is na'r ffigurau ym mis Ionawr 2019.



CYMORTH A CHYNGOR

Rydym wedi darparu cymorth ychwanegol i helpu a chynghori busnesau a phreswylwyr Sir Gâr drwy gydol yr argyfwng Coronafeirws sy'n parhau. Sefydlwyd llinell gymorth oedd ar gael saith diwrnod yr wythnos.



2,100 o alwyr a gafodd gymorth gyda'u hymholiadau trwy ein gwasanaeth Llinell Alwadau

Roedd swyddogion y Cyngor wrth law i ddarparu canllawiau a chyfeirio mewn meysydd oedd yn cynnwys:

- Cymorth ariannol a help arall i fusnesau
- Cymorth oedd ar gael i'r henoed, pobl agored i niwed a phobl ynysedig
- Cysylltu anghenion cymunedau â gwirfoddolwyr

Roedd y gwasanaeth hwn yn adeiladu ar waith a wnaethpwyd eisoes yn ein cymunedau, gyda staff y cyngor yn helpu gwirfoddolwyr ar lawr gwlad.



4,086 o fusnesau sydd wedi cael grantiau ardrethi busnes gwerth mwy na **£46 miliwn**

Rydym ni wedi helpu 4,086 o fusnesau i gael taliadau grant ardrethi busnes Llywodraeth Cymru gwerth rhwng £10,000 a £25,000 a'r cyfanswm oedd mwy na £46 miliwn

CANFOD PA GYMORTH MAE EI ANGEN AR FUSNESAU



Trefnwyd holiadur (ymatebodd 574 o fusnesau) ac arolwg dros y ffôn (cysylltwyd â 422 o fusnesau) ym mis Mai i ganfod mwy am yr effaith mae COVID-19 wedi'i chael ar fusnesau Sir Gâr, er mwyn dysgu beth oedd yn bwysig iddyn nhw yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, fel y gallwn ddarparu'r cymorth mae arnyn nhw ei angen mwyaf yn y dyfodol. At hynny, sefydlwyd *tîm busnes penodol* i siarad â busnesau'n uniongyrchol.

Dyma'r hyn a ganfuom:

- Mae effeithiau negyddol y pandemig COVID-19 wedi bod yn sylweddol ac yn bellgyrhaeddol i'n busnesau - mae **171** o fusnesau ar gau yn llwyr ar hyn o bryd ac mae llawer yn nodi eu bod yn 'gaeafgysgu'. Mae cyfran fawr (**166**) yn gweithredu'n rhannol ond gyda llai o gapasiti ac ystod lai o wasanaethau, ac mae'r rhan fwyaf wedi rhoi nifer sylweddol o'u gweithwyr ar ffyrlo.
- Bu gostyngiad sylweddol mewn incwm, llai o fynediad at gwsmeriaid, problemau gyda chadwyni cyflenwi a phosibilrwydd rhoi'r gorau i fasnachu
- Mae llawer o'r busnesau yr effeithiwyd arnynt waethaf yn y sectorau hynny y bernir eu bod o bwysigrwydd sylweddol i Sir Gâr o ran cyflogaeth a/neu Werth Ychwanegol Gros - mae'r sectorau economi ymwelwyr, bwyd a diod yn werth bron £169 miliwn i'r economi; hefyd heriau ym maes Amaethyddiaeth
- Nid yw llawer o fusnesau (yn bennaf y rheiny sy'n hunangyflogedig neu'n gweithio ar eu liwt eu hunain) wedi gallu cael unrhyw gymorth ariannol – rhwystrau i gael cymorth ac wedi cael eu barnu'n anghymwys am yr hyn a gynigir ar hyn o bryd
- Y math o gymorth y mae'r galw mwyaf amdano (yn y tymor byr a'r tymor hirach) yw cymorth ariannol (grantiau, benthyciadau neu ohirio taliadau) – mae'n bosibl y bydd cynaliadwyedd hyn yn galw am gynorthwyo busnesau i arallgyfeirio eu gwaith h.y. symud i werthu ar lein, ailhyfforddi staff, datblygu cynhyrchion ac ati
- Mae ar fusnesau angen cymorth: i'w galluogi i gaffael cyflenwadau h.y. cyfarpar diogelu personol a chyfarpar diogelwch mewn modd cydweithredol; inni arwain ar y neges 'prynwch yn lleol' a'r gwaith o warchod cadwyni cyflenwi lleol; ac inni eu helpu gyda gwaith hyrwyddo a hysbysebu
- Mae ardaloedd o amddifadedd yn y sir lle gallai effeithiau'r pandemig gael eu teimlo'n fwy difrifol, felly dylai mentrau cymorth cymunedol ganolbwyntio yn bennaf ar ardaloedd y nodir eu bod yn wynebu lefelau uwch o amddifadedd
- Mae rhai busnesau'n rhagweld y byddan nhw'n wynebu heriau o ran sgiliau oherwydd y pandemig, a dywedodd y mwyafrif fod y diffyg sgiliau hwn yn ymwneud â sgiliau TG a digidol. Yn ddiau bydd sgiliau yn gyffredinol yn dioddef oherwydd y pandemig. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi fydd yn cael eu colli yn debyg o fod ar lefel sgiliau is gan fod y swyddi hyn yn tueddu i fod yn rhai rhan-amser, â chyflog isel ac yn fwy ansefydlog.

Beth yw'r effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir?

Cymorth busnes

Yn yr arolwg o fusnesau dywedodd llawer o fusnesau lleol eu bod yn wynebu dyfodol ansicr, gan nodi problemau fel llif arian, ansicrwydd ynghylch hyder cwsmeriaid a'r angen i newid eu modelau cyflawni busnes. Bydd yn hanfodol ymgysylltu'n uniongyrchol â busnesau er mwyn gallu targedu cymorth busnes at y manau lle mae'r angen mwyaf.

Caffael

Roedd llawer o fusnesau'n methu cael gaffael ar gynhyrchion yr oedd galw mawr amdanynt fel cyfarpar diogelu personol felly bydd cynorthwyo busnesau yn y dyfodol gyda chaffael cydweithredol neu fargeinion â chymhorthdal yn helpu i leihau'r effaith cymaint ag sy'n bosibl. Bydd hefyd angen inni arwain ar y neges hyrwyddol '*prynwch yn lleol*' a'r gwaith o warchod cadwyni cyflenwi lleol.

Cymunedau

Mae ardaloedd o amddifadedd yn y sir lle bydd effaith y pandemig yn cael ei theimlo'n fwy difrifol. Mae dadansoddiad ar draws y Deyrnas Unedig wedi dangos bod ardaloedd o amddifadedd wedi gweld cyfraddau marwolaeth uwch, effeithiau ariannol mwy difrifol a'r effeithiau negyddol mwyaf ar lesiant cyffredinol. Yn Sir Gâr, dylid rhoi sylw i'r ardaloedd hyn er mwyn sicrhau bod ymyriadau'n diwallu anghenion y cymunedau hyn gan eu bod yn fwy tebyg o gael eu taro waethaf. Bydd ail-flaenoriaethu cymorth cymunedol a grantiau yn helpu i wella cydnheredd cymunedau o ran COVID-19 a bydd hynny yn ei dro yn eu helpu i ddod yn fwy hunan-gydnerth ynghyd â chadwyni cyflenwi lleol cynaliadwy.

Sgiliau

Gwelwyd amrywiadau yn y galw am sgiliau dros y flwyddyn ddiwethaf. Nyrsio yw'r sgil y mae'r galw mwyaf amdano yn y sir yn gyson, ynghyd â mwy o alw am ofal personol, ac mae'r duedd hon yn debyg o barhau o gofio'r pwysau presennol ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Nid yw'n hawdd rhagweld sut y bydd y pandemig yn effeithio ar y dirwedd sgiliau yn gyfan. Mae llawer o'r swyddi fydd yn cael eu colli yn debyg o fod ar lefel sgiliau is gan fod y swyddi hyn yn tueddu i fod yn rhai rhan-amser, â chyflog isel ac yn fwy ansefydlog. Gallai hyn arwain at ledu'r bwlch sgiliau yn fwy byth rhwng y mwyaf medrus a'r lleiaf medrus yn y farchnad lafur. Yr hyn sy'n hanfodol wrth fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau hwn yw deall yn union pa sgiliau sydd gan bobl yn ogystal â deall sut mae modd trosglwyddo'r sgiliau hyn i sectorau eraill. Mae angen i gyflogwyr a busnesau nodi'r sgiliau mae arnynt eu hangen, ac mae angen i ddarparwyr ddiffinio'r sgiliau mae angen iddynt hwythau eu haddysgu.

Twristiaeth, Hamdden a Lletygarwch

Gellid dadlau mai busnesau Twristiaeth, Hamdden a Lletygarwch yw rhai o'r busnesau mae'r pandemig wedi cael yr effaith fwyaf niweidiol arnynt, ac mae llawer wedi nodi y bu'r effaith arnynt yn sylweddol. Mae cyfyngiadau symud wedi golygu bod y rhan fwyaf o sefydliadau wedi cael eu gorfodi i ddod â'u gweithrediadau i ben yn llwyr. Nid oes llawer o gyfle wedi bod iddynt arallgyfeirio yn y sector hwn oherwydd natur y gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig. Mae hyder y cyhoedd yn broblem arall, ac mae llawer yn nodi bod angen ymagwedd sector cyfan mewn ymateb i'r pandemig, a fyddai'n meithrin hyder y cyhoedd o ran pa mor ddiogel yw hi i ddefnyddio eu gwasanaethau ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi. Ynghyd â hyn mae pryder arall gan y sector y bydd pobl ar ôl COVID efallai'n llai tebyg o wario arian ar weithgareddau a gwasanaethau sy'n 'foethau' neu'n 'braf eu cael'.

PRIF GANOL TREFI

Ar hyn o bryd, mae effeithiau economaidd yr argyfwng COVID-19 yn ansicr iawn, sy'n ei gwneud yn anodd creu darlun clir o'r effaith uniongyrchol ar ein prif ganol trefi – *Caerfyrddin, Rhydaman a Llanelli*. Pan osododd llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig gyfyngiadau yn gyntaf ar weithrediad busnesau oedd yn targedu'r sector manwerthu yn benodol, gwelwyd effaith benodol ar swyddi yn y busnesau hyn. Mae busnesau manwerthu yn agored i niwed oherwydd cau siopau a lleihad mawr yn y galw oddi wrth brynwyr.

Roedd yn hanfodol, er mwyn helpu cynifer o'r busnesau yn ein canol trefi i ailddechrau gweithredu'n ddiogel ag yr oedd modd cyn gynted ag yr oedd modd, inni greu amgylcheddau diogel yng nghanol trefi a galluogi symudiad synhwyrol drwyddyn nhw a fydd yn rhoi hyder i ddefnyddwyr, preswylwyr a busnesau i ailafael mewn gweithgarwch a busnes. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys: Arwyddion; Cyfathrebu â busnesau; Toiledau Cyhoeddus; Gorsafoedd Bysiau; Meysydd Parcio; a materion yn ymwneud â Chelfi Stryd (e.e. meinciau)

Yn ddiweddar mae *The Centre for Towns*, sefydliad amhleidiol annibynnol sy'n gwneud gwaith ymchwil a dadansoddi ar amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar ein trefi, wedi adolygu effaith y pandemig COVID-19 ar drefi a dinasoedd ledled y Deyrnas Unedig. Mae [canfyddiadau'r adroddiad](#) yn nodi bod Llanelli ymysg yr 20 tref uchaf yn y Deyrnas Unedig am amddifadedd absoliwt ac felly heb gydnerthedd o ran COVID-19.

Beth yw'r effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir?

Economi Canol Trefi

Mae'r sector Manwerthu wedi cael cryn dipyn o gyhoeddusrwydd fel un o'r sectorau sydd wedi cael eu taro waethaf o ran effeithiau niweidiol y pandemig. Caewyd y sector yn llwyr ym mis Mawrth. Er y bu cynnydd mewn prynu ar-lein mae llawer o fusnesau yn y sir (am eu bod yn annibynnol ac yn llai) wedi methu â manteisio ar y duedd hon. Efallai y bydd ar y busnesau hynny angen cymorth mewn ffyrdd eraill o fasnachu yn y dyfodol. Mae'r diffyg mynediad at gwsmeriaid wedi golygu bod llawer o fusnesau'n wynebu heriau o ran cyllid. Mae'r effaith ar gadwyni cyflenwi, yn ogystal ag argaeledd staff, wedi bod yn sylweddol. Wrth i gadw pellter cymdeithasol ddod yn fwy arferol, byddai angen rhoi mesurau ar waith i sicrhau y gall pobl deimlo'n ddiogel yng nghanol trefi, ynghyd â gwell mynediad i gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus y dref.

TREFI GWLEDIG

Cyn yr argyfwng presennol roeddem yn cyflawni gwaith i lunio cynlluniau twf i adfywio 10 tref o dan ein [strategaeth Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen](#):

1. Llanymddyfri	2. San Clêr
3. Hendy-gwyn ar Daf	4. Castell Newydd Emlyn
5. Talacharn	6. Cwmaman
7. Llanybydder	8. Cydweli
9. Llandeilo	10. Cross Hands



Roedd y cynlluniau twf hyn i fod i edrych ymlaen 10 mlynedd gyda syniadau a blaenoriaethau newydd wedi'u cytuno mewn partneriaeth â busnesau. Mae'r angen am y cynlluniau hyn yn bwysicach byth oherwydd y corwynt economaidd a ddaeth yn sgil y pandemig.

Mae effeithiau economaidd tebygol COVID-19 ar 5 o'r 10 tref hyn (a ddangosir mewn print trwm uchod) wedi cael eu hystyried gan *Owen Davies Consulting* – ond byddai'r canfyddiadau allweddol cychwynol hyn yr un mor berthnasol i'n holl drefi gwledig:

- Mae effeithiau ar *amaethyddiaeth* yn debyg o gael mwy o effaith ar drefi gwledig oherwydd bod cyfran fwy o bobl yn cael eu cyflogi ym maes amaethyddiaeth.
- Ar draws ein trefi gwledig, mae 35% o'r gweithlu'n cael eu cyflogi mewn galwedigaethau y bernir eu bod yn wynebu'r risg fwyaf (gweinyddol, hamdden, gwasanaeth cwsmeriaid).
- Pe bai un ym mhob pump o'r gweithwyr sy'n wynebu'r risg fwyaf yn colli ei swydd, *byddai diweithdra'n cynyddu 70%*.
- Canfuwyd bod gan *ychydig o drefi (Hendy-gwyn ar Daf a San Clêr)* y nifer fwyaf o reolwyr a gweithwyr *proffesiynol* sydd â mwy o allu i weithio gartref a bernir bod y galwedigaethau hyn â llai o risg.
- Mae 20% o weithwyr ar draws y trefi yn *hunangyflogedig* a bernir bod y rhain yn fwy agored i gollu incwm yn ddisymwth ac, mewn rhai achosion, yn llwyr.
- Mae *mwy na 40%* o fusnesau yn y trefi mewn *sectorau a gaewyd* (bwytaï, tafarnau, caffis, manwerthu heblaw bwyd ac ati).
- Mae busnesau bwyd a diod a darparwyr llety yn debyg o fod wedi cau ar draws y trefi, ac mae *Talacharn* yn fwyaf tebyg o ddiodeff yn waeth nag eraill.

Mae adolygiad o effaith COVID-19 ar y 5 tref arall yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Beth yw'r effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir?

Yr Economi Wledig

Mae cyfran sylweddol o'r gweithlu'n cael eu cyflogi mewn galwedigaethau y bernir eu bod yn wynebu'r risg fwyaf ac mae pobl hunangyflogedig hyd yn oed yn fwy agored i'r dirywiad economaidd. Ymddengys fod nifer o fusnesau amaethyddol yn y sir yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig â mynd â'u cynnyrch i'r farchnad. Mae hyn yn arbennig o wir am gynhyrchwyr llaeth sy'n nodi bod y pris maen nhw'n gwerthu amdano yn dal i ostwng a bod dibrisiad cynnyrch yn parhau'n gyflym. Mae hyn yn arwain at lawer o wastraff ac yn gorfodi rhai i werthu am bris is na chost cynhyrchu. Mae hyn yn wir hefyd am gynnyrch cig eidion a chig oen. Mae'r anawsterau hyn yn cael eu gwaethgu gan broblemau gyda chadwyni cyflenwi a llai o fynediad at gwsmeriaid sy'n arwain at broblemau sylweddol o ran cyllid ac incwm. Ar nodyn cadarnhaol mae llawer o fusnesau amaethyddol yn rhai teuluol, ac mae'r effaith wedi ei gwneud yn symlach iddynt barhau i weithredu drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud, wrth i lawer o aelodau o'r teulu symud adref i'r fferm ar gyfer cyfnod y cyfyngiadau symud, gan olygu bod llafur ychwanegol ar gael.

HYDER DATBLYGWYR / BUDDSODDWYR

Cysylltwyd â rhyw 15 o Ddatblygwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ynghylch eu busnesau a sut mae COVID-19 wedi effeithio arnynt. Roedd y drafodaeth gyda'r datblygwyr yn troi o gwmpas 4 prif thema:

1. *Effeithiau byrdymor (yn y presennol a'r 6 mis nesaf)*

At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o'r datblygwyr yn syndod o gadarnhaol ac yn ystyried yr argyfwng presennol yn her ond yn gyfle mewn rhai achosion.

2. *Y prif gyfyngiadau a ragwelir yn y dyfodol*

Mae angen i'r broses cynllunio fod yn fwy ymatebol; costau cynyddol; diffyg cynlluniau cyllid llenwi bwllch; y sector cyhoeddus yn rhy gryf, angen adfywio'r sector preifat; Llywodraeth Cymru'n tynnu allan o'r cynllun bond cymdeithasau tai

3. *Y prif gyfleoedd yn y dyfodol*

Mae galw o hyd am eiddo o ansawdd da; cyfleoedd i farchnata stoc / safleoedd datblygu i gwmnïau mewn dinasoedd allweddol ledled y Deyrnas Unedig gan geisio lleihau costau a gwella ansawdd bywyd i gyflogeion; mae'r farchnad eiddo preswyl yn gryf a hefyd pobl yn symud fel uchod; caffael lleol a chyson; pentrefi ymddeol o gymharu â chartrefi gofal

4. *Y prif ymyriadau mae eu hangen gan y sectorau cyhoeddus a phreifat*

Cynllun cymorth cyllid llenwi bwllch / Cronfa Datblygu Eiddo; cyfraddau ymyrraeth uwch i gynorthwyo â ffigur y bwllch datblygu cynyddol; fforwm i ddatblygwyr; cymorth i gynorthwyo â gohirio rhenti tenantiaid y sector preifat; gwarantau rhenti oddi wrth awdurdodau lleol.

Beth yw'r effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir?

Bydd yn rhaid ystyried effaith gweithio gartref a'i effeithiau trawsnewidiol ar y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith mewn gwaith Cynllunio Datblygu Lleol. Bydd angen ystyried yr effaith economaidd ymhellach er mwyn creu manau cyflogaeth ychwanegol yn arbennig ar gyfer busnesau newydd bach. Awgrymodd yr adborth i'r arolwg fod angen inni adolygu a symleiddio cymorth cynllunio ar gyfer ceisiadau datblygu economaidd allweddol (bach a mawr).

Bu effaith sylweddol ar y sector adeiladu felly bydd yn hanfodol inni barhau â buddsoddiadau sylweddol ym maes adfywio seilwaith cyfalaf er mwyn hybu'r galw yn y sector adeiladu a meithrin hyder.

Mae effaith y pandemig ar staff swyddfeydd wedi cael ei lleihau gan systemau TG sy'n darparu newid cymharol ddi-dor i weithio gartref. Roedd y *Strategaeth Trawsnewid Digidol* a'r rhaglen *Gweithio Ystwyth* o fantais fawr inni ar ddechrau'r argyfwng. Bydd angen ailystyried ein cynlluniau presennol ynghylch manau gwaith.

SUT YR YDYM WEDI HELPŪ EIN BUSNESAU



This Photo by Unknown Author is licensed under [CC BY-ND](https://creativecommons.org/licenses/by-nd/4.0/)

Ar ôl i'w swydd gyda'i gyn-gyflogwr gael ei dileu, sefydlodd *Ryan Jones* ei fusnes newydd, *Pentre Plumbing & Heating*, ym mis Ebrill 2019.

Gyda chymorth grant o bron £3,000 oddi wrth *Gronfa Cychwyn Busnes Sir Gâr* oedd ar waith ar y pryd, prynodd Ryan yr holl offer a chyfarpar yr oedd eu hangen i ddarparu ei wasanaethau ac yn fuan iawn enillodd contractau gyda chleientiaid fel Leekes a Chyngor Tref Rhydaman, yn

ogystal â magu enw da fel plymwr a pheiriannydd gwresogi domestig. Nid yn unig mae'r fenter hon wedi creu a sicrhau swydd amser llawn i Ryan, mae hefyd wedi gosod y seiliau i greu swydd arall yn y busnes yn y dyfodol agos o bosibl.

Ar ôl gweld galw mawr am ei wasanaethau fel plymwr ag enw da, roedd dyfodiad COVID-19, y ffaith bod Leekes a chyfleusterau Cyngor Tref Rhydaman wedi cau, a chanslo gwaith gan gleientiaid domestig nad oedden nhw eisiau crefftwyr yn eu cartrefi, yn golygu bod gwaith Ryan bron â dod i ben, yn anffodus.

Ceisiodd Ryan gymorth trwy **linell gymorth COVID** oedd newydd gael ei sefydlu gan y Cyngor, a chafodd ei gyfeirio at swyddog cymorth busnes i gael cyngor. Roedd y ffaith fod hwn yn fusnes newydd heb rwymedigaeth i dalu ardrethi busnes yn golygu, yn anffodus, ei fod wedi syrthio trwy rwyd llawer o'r cynlluniau cymorth busnes oedd yn cael eu cyflwyno ar y pryd, ond cafodd ei roi ar restr wrth gefn a'i gynghori i wneud cais am Gredyd Cynhwysol i'w helpu trwy gyfnod y cyfyngiadau symud.

Ar ôl lansiad *cronfa Dechrau Busnes COVID* a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin, sy'n cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Gâr, cysylltwyd â Ryan ac fe'i cynghorwyd i wneud cais gan ei fod yn bodloni'r meini prawf. Drwy'r cynllun hwn, cafodd Ryan £2,500 i helpu i gadw ei fusnes i fynd hyd nes y gall ailddechrau darparu ei wasanaethau.

Dyweddodd Ryan "*Rwy'n ddiolchgar i Gyngor Sir Gâr am y cymorth mae wedi'i roi imi wrth sefydlu Pentre Plumbing & Heating. O ddechrau y llynedd i ddal i roi cymorth pan aeth popeth yn dawel yn ystod y cyfyngiadau symud, mae'r cymorth wedi bod yn hynod o werthfawr wrth gadw'r busnes i fynd a chynnal fy swydd*".

[Darganfod Sir Gâr yn yr haf eleni](#)

AMGYLCHEDD A SEILWAITH



ANSAWDD AER

Mae lefelau Nitrogen Deuocsid (NO₂) wedi gostwng yn ystod Ebrill i Fehefin 2020

O ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, gwelwyd lleihad mawr iawn mewn symudiadau cerbydau ar y ffyrdd yn Sir Gâr. Nodwyd mai'r prif lygredd sy'n peri pryder i Sir Gâr yw Nitrogen Deuocsid (NO₂) o gerbydau ar y ffyrdd. Mae gennym 91 o leoliadau ledled y sir lle mesurir NO₂ ac mae gennym 3 Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) lle mae'r lefelau'n uwch na'r terfynau statudol blynyddol mewn mannau problemus.

[Adroddiad Effaith Cyfyngiadau Symud COVID-19 ar Ansawdd Aer](#) / [Gweddarlliediad y Bwrdd Gweithredol 21 Medi 2020](#)

GWASTRAFF TREFOL

Mae'r gwastraff trefol a gasglwyd wedi gostwng 18.5% (o gymharu â'r un cyfnod Ebrill-Mehefin y llynedd) o 21,181 o dunelli i 17,252 o dunelli. Mae'n debyg bod hyn oherwydd bod y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref wedi cau ac mai hyn sy'n gyfrifol am y lleihad cyffredinol. Fodd bynnag, **mae'r gwastraff a gasglwyd wrth ymyl y ffordd wedi cynyddu bron 20% oherwydd bod mwy o bobl gartref.**

- Cynnydd o hyd at 595t -14% mewn gwastraff gweddilliol wrth ymyl y ffordd
- Cynnydd o hyd at 975t - 34% mewn deunydd ailgylchadwy cymysg sych wrth ymyl y ffordd (bag glas)
- Cynnydd o hyd at 591t - 35% mewn gwastraff bwyd wrth ymyl y ffordd
- I lawr 1,606t – gostyngiad o 83% yng ngwastraff gweddilliol Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
- I lawr 4,974t – gostyngiad o 77% yn neunydd ailgylchadwy Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
- Mae nifer y cwsmeriaid gwastraff o'r ardd wedi dyblu bron yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud oherwydd Covid-19.

“Rydym yn gwerthfawrogi'r timau diwyd sy'n dal i gyflawni gwasanaeth ardderchog mewn cyfnod anodd” Canmoliaeth a ddaeth i law

Roedd y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar gau am 7 wythnos. Gan fod llawer o breswylwyr gartref yn gweithio ar brosiectau DIY roedd y galw am y gwasanaeth pan gafodd ei ail-lansio ym mis Mehefin yn ddigynsail. Sefydlasom system apwyntiadau ar-lein ac ail-agorwyd y safleoedd mewn ffordd oedd yn cydymffurfio â'r rheolau ac yn cael ei rheoli.

“Aeth yn eithriadol o dda – mae pwyl bynnag a drefnodd hyn yn haeddu cael ei longyfarch.” Canmoliaeth a ddaeth i law

TIPIO ANGHYFREITHLON

Mae tipio anghyfreithlon wedi cynyddu 54%

Yn ystod y 4 mis rhwng Ebrill a Gorffennaf 2020 rhoddwyd gwybod am **1,089 o achosion o dipio anghyfreithlon** o gymharu â 706 ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Mae hyn wedi cael effaith ar gymunedau o ran malltod lleol. Hefyd, ataliwyd rhai sesiynau casglu sbwriel gwirfoddol cymunedol a gwaith cyffredinol i glirio sbwriel (heblaw canol trefi) sy'n ychwanegu at y malltod. Yn ogystal, ataliwyd ein gwaith Gorfodi Amgylcheddol a olygai nad oedd modd cyflawni ymchwiliadau i dipio anghyfreithlon a materion yn ymwneud â pheidio â chydymffurfio o ran gwastraff.

EIN HARWYR YN EU GWISGOEDD LLACHAR!



Roedd casgliadau gwastraff a deunydd ailgylchadwy yn hollbwysig i iechyd y cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd yn ystod argyfwng COVID-19, a barnodd y *Llywodraeth fod gweithwyr gwastraff yn 'weithwyr allweddol'* ac maent wedi parhau i gyflawni gwasanaethau hanfodol yn ystod yr epidemig. Yn debyg iawn i weithwyr rheng flaen y GIG, mae gweithwyr gwastraff wedi bod yn cael eu diolch a'u gwerthfawrogi gan ddeiliaid tai.

Ataliwyd gwasanaethau glanhau strydoedd dianghenraid ar y cyfan a bu staff glanhau yn helpu i gasglu sbwriel.

Hefyd bu gweithwyr Priffyrdd o'n depo yn Nhrostre yn gyrru cerbydau cymorth ar rowndiau sbwriel pob dydd i'r Uned Gwastraff / Sbwriel.

Cynorthwyodd staff Gorfodi Amgylcheddol a gweithwyr Priffyrdd hefyd gyda danfoniadau bwyd

i'n hysgolion a buont yn cynorthwyo gyda phecynnau bwyd oedd yn cael eu danfon yn syth i gartrefi. Gwirfoddolodd eraill yn y tîm Gorfodi Amgylcheddol i fod yn hyfforddwyr yn y gwasanaeth glanhau adeiladau.

CAU CYFLEUSTERAU

CYFLEUSTER	
Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref	Ar gau am 7 wythnos
Parc Howard	Effaith niweidiol ar argaeledd manau agored cyhoeddus i wneud ymarfer corff a chadw'n heini.
Cau Toiledau Cyhoeddus	Cyfleusterau sylfaenol ar gau i'r cyhoedd, a dim cyfleusterau gwirioneddol eraill ar gael. Ac eithrio canolfannau cludiant allweddol.
Mynwent Rhydaman	Cyfyngiadau ar y nifer sy'n mynychu claddedigaethau, gan effeithio ar deuluoedd a chymunedau o bosibl.

GWASANAETH GLANHAU

600 o lanhawyr wedi'u hailhyfforddi

150 o lanhawyr ychwanegol wedi'u cyflogi

Mae glanhawyr wedi helpu i gadw ein hybiau ysgol, ysgolion, canolfannau dosbarthu bwyd, depos, swyddfeydd a thai gwarchod ar agor. Datblygasom safon uwch o lanhau ar draws yr holl leoliadau trwy drafodaeth gyda'n cydweithwyr yn adran Diogelu'r Cyhoedd. Roedd y safonau glanhau uwch hyn yn hanfodol i leihau trosglwyddiad y feirws ac i feithrin hyder a sicrwydd bod yr amgylchedd gwaith mor ddiogel ag y gallwn ei wneud.



Chwaraeodd y trefniadau glanhau gwell ran sylweddol mewn sicrhau y gallai ysgolion ailagor ym mis Gorffennaf, gyda pharatoadau yn mynd rhagddynt i gynorthwyo â threfniadau glanhau ar gyfer y nifer ychwanegol mewn ysgolion sy'n mynd yn ôl ym mis Medi.

*“Hollol lân diolch i’w hegni a’i diwydrwydd di-baid – effaith enfawr ar hyder y staff”
Canmoliaeth a ddaeth i law i Lanhawr Ysgol*

GWAITH STRYD

Cynnydd o ran prosesu **hysbysiadau am waith stryd cwmnïau cyfleustodau** er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau fel trydan, dŵr, nwy, ffôn a gwasanaethau band eang yn gallu cael eu cynnal. Cynyddodd nifer yr hysbysiadau am waith yn ystod y cyfnod hwn i 2,600 y mis. Nid yw'r system hysbysu yn caniatáu inni ei ddadansoddi'n gategoriâu gwaith, ond roedd *Openreach* yn arbennig o weithgar wrth gyflawni gwaith i adfer gwasanaethau i gwsmeriaid – nid band eang yn unig o angenrheidrwydd, ond hefyd i bobl agored i niwed ac ati, yn ôl pob tebyg.

Cynyddodd nifer y trwyddedau sgiapiau 50% yn ystod mis Ebrill a mis Mai oherwydd bod preswylwyr yn clirio eu cartrefi a'u gerddi.

Bu cynnydd mewn amrywiaeth o swyddogaethau trwyddedu priffyrdd eraill gan gynnwys **caffis stryd (100% o gynnydd)**, trwyddedau i osod cyfarpar (10% o gynnydd) a chreu mynediad i gerbydau sydd wedi cynyddu 15% (cais i ostwng y cyrbiau i roi mynediad i eiddo).

TRAFNIDIAETH

Roedd llai o lawer yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, ac mewn gwirionedd roedd defnydd o drafndiaeth gyhoeddus wedi lleihau'n aruthrol hyd yn oed cyn y cyfyngiadau symud ffurfiol. Creodd hyn broblem i weithredwyr lle roedd llawer llai o incwm ar y llwybrau hynny yr oedden nhw'n llwyddo i redeg gwasanaeth arnynt. Mae hyn wedi creu problem ariannu i'r dyfodol. Gallai gymryd cryn dipyn o amser i adfer lefelau defnydd, a gan fod llawer wedi ymgyfarwyddo â gweithio gartref gallai fod effeithiau niweidiol hirdymor ar lefelau gwasanaethau. Er gwaethaf yr heriau mae'n bosibl y bydd cyfle i ail-edrych ar y sefyllfa ac ail-flaenoriaethu'r ddarpariaeth yn ôl yr angen.

Darparwyd cludiant i'r ysgol yn ystod y cyfnod pan ail-agorodd ysgolion tua diwedd mis Mehefin a mis Gorffennaf. Roedd cludiant ar gael yn unol â'n polisi arferol ond dim ond i'r rheiny a ofynnodd amdano'n benodol. Bydd cludiant yn gweithredu yn ôl yr arfer o fis Medi ymlaen.

Mae'r angen i sicrhau pellter cymdeithasol rhwng y gyrrwr a'r teithwyr yn creu tipyn o her am ei fod yn golygu y bydd angen i rai seddi sy'n agos at y gyrrwr gael eu gadael yn wag, gan greu problemau o ran nifer teithwyr a'r angen am gerbydau ychwanegol. Mae pryder hefyd y gall fod prinder gyrrwr a chynorthwyrwyr teithwyr, o gofio bod llawer o'r rhain yn oedrannus.

***“Mae gyrrwyr Bwcabus wedi mynd yr ail filltir...gan gynorthwyo gweithwyr allweddol...
Maen nhw'n ardderchog ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn”***


MYNEDIAD I GEFN GWLAD

Bu cynnydd sylweddol yn y galw i ddefnyddio'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus gan y gymuned pan oedd y pandemig ar ei anterth. Bu cynnydd mawr iawn yn nifer y galwadau ffôn a negeseuon e-bost oddi wrth y cyhoedd a thirfeddianwyr a defnyddiwyd llawer o adnoddau staff i sicrhau bod y gymuned yn cael y wybodaeth lawn ac y tawelwyd eu meddyliau ynghylch statws mynediad cyhoeddus. Rhwng mis Mawrth a mis Mehefin cynyddodd y defnydd o'r dudalen we Hawliau Tramwy Cyhoeddus (ac eithrio defnydd gan staff Cyngor Sir Gâr) yn sylweddol. Cynyddodd sesiynau ar y dudalen we 237%.

Ymdriniwyd â 49 ymgais i gau Hawliau Tramwy Cyhoeddus heb awdurdod cyfreithlon pan oedd y pandemig ar ei anterth. Byddai hyn wedi cael effeithiau niweidiol ar y cymunedau oedd yn defnyddio'r llwybrau hynny ar gyfer eu hymarfer corff dyddiol.

Teithio llesol (Llwybr Beicio Dyffryn Aman) – Beicwyr

Mae gwaith i fonitro ein llwybrau beiciau ym mis Mai wedi dangos 5.3% o gynnydd mewn cerdded a 166% o gynnydd mewn beicio yn ystod y pandemig.



SEILWAITH PRIFYRDD

Oherwydd bod gwaith cynnal cyfalaf wedi peidio, achoswyd oedi i waith cynnal ataliol a gallai hyn olygu nad oedd ymyriadau amserol i sicrhau y diogelwyd yr asedau priffyrdd yn bosibl. Parhaodd gwaith diogelwch hanfodol ac felly hefyd ymatebion y tu allan i oriau i faterion diogelwch ac argyfyngau.

Oherwydd y risg a achosir gan goed yr effeithiwyd arnynt, mae ein gwaith i reoli coed y mae clefyd coed ynn wedi effeithio arnynt wrth ochr ein rhwydwaith ffyrdd wedi bod yn parhau drwy gydol y pandemig. Gwardwyd coed o fewn terfynau priffyrdd yn ardal Llanelli ym mis Awst, ac mae rhagor o waith yn yr arfaeth yn ardal Llandeilo ym mis Medi.

GWASANAETH CYNLLUNIO

Ataliwyd gwasanaethau gorfodi cynllunio gan arwain at achosion posibl o dorri rheolau cynllunio sy'n effeithio ar eiddo a chymunedau cyfagos.

GWASANAETH CYNNAL A CHADW EIDDO

Parhaodd y Tîm Cynnal a Chadw Eiddo i gyflawni gwaith cynnal a chadw brys a diogelwch ar draws ein heiddo tai ac eiddo nad yw'n dai, oedd yn galw am fesurau ychwanegol i sicrhau diogelwch ein staff a'n tenantiaid. Roedd hyn yn cynnwys legionella a phroffion diogelwch nwy a thrydan i sicrhau bod eiddo'n aros yn ddiogel. Fodd bynnag cafodd gwaith oedd heb fod yn frys ei atal yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud a chadwyd cofnodion o geisiadau am waith er mwyn gweithredu arnynt yn y dyfodol. Awgrymodd adolygiad o'r ôl-groniad hwn yng nghanol mis Awst bod COVID-19 wedi effeithio ar oddeutu 1,500 o orchwylion cynnal a chadw a bod angen eu cyflawni pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Disgwylir y caiff y rhain eu cwblhau dros yr hydref/gaeaf, os bydd y cyfyngiadau symud yn parhau i gael eu llacio a bod tenantiaid (lle bo'n berthnasol) yn fodlon inni gael mynediad).

Nid yw'r Tîm Archwilio Adeiladau wedi bod yn cyflawni archwiliadau nad ydynt yn hanfodol felly disgwylir y bydd cryn dipyn o waith cynnal a chadw cudd hefyd, yn enwedig mewn adeiladau sydd ar gau.

DYLUNIO AC ADEILADU EIDDO

Roedd y rhan fwyaf o'n safleoedd adeiladu wedi'u cau gan ein contractwyr yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud o ganlyniad i gyfyngiadau staffio a chyflenwi deunyddiau, er bod rhai safleoedd wedi dal ati. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r holl gontractwyr i ailddechrau ar bob safle cyn gynted ag sy'n bosibl, er mwyn sicrhau y cyflawnir y prosiectau ar gyfer gwasanaethau gwell i'r gymuned, ond hefyd i gynorthwyo â llif arian y contractwyr.

Cafodd ein gwaith Safon Tai Sir Gâr ei atal gan y Cyngor ac nid yw wedi ailddechrau eto. Bydd yr oedi wrth gwblhau'r gwelliannau hyn yn parhau i gael effaith ar y rheiny sy'n byw yn ein cartrefi.

SEILWAITH EIDDO

Pan roddwyd y cyfyngiadau symud ar waith, cafodd amrywiaeth o adeiladau'r Cyngor eu cau i'r cyhoedd a'r staff er mwyn annog pobl i weithio gartref yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd angen i rai aelodau o'r staff fynd i adeiladau o hyd er mwyn cyflawni eu gwaith ond mae hyn wedi cael ei fonitro'n fanwl i sicrhau mai dim ond y rhai y mae angen iddynt fynd i'r adeiladau sy'n cael gwneud hynny. Er mwyn cynorthwyo ag ailagor gwasanaethau cyflwynasom broses wirio annibynnol fewnol i sicrhau bod cadw pellter cymdeithasol a mesurau diogelwch eraill ar waith cyn y cafodd unrhyw adeilad ei ailagor, er mwyn sicrhau diogelwch ein staff a'r cyhoedd. Oherwydd bod adeiladau wedi cau mae llai o ddarpariaeth gwasanaethau wyneb yn wyneb i'r cyhoedd, sydd wedi newid i gyfathrebu dros y ffôn a'r rhyngwyd.

Mae amrywiaeth o adeiladau ar gau o hyd a byddwn yn adolygu ein hanghenion o ran eiddo at y dyfodol. Mae'r ffyrdd newydd o weithio gartref yn debyg o gynnig cyfle i leihau ein hanghenion am swyddfeydd a chanolbwyntio mwy ar adeiladau sy'n darparu gwasanaethau uniongyrchol i'r cyhoedd.

SEILWAITH DIGIDOL

BAND EANG A SYMUDOL

Er bod mwy o bobl yn gweithio gartref, mae darparwyr ysgol gartref a ffrydio adloniant ar-lein wedi esbonio bod y rhwydweithiau wedi'u hadeiladu gyda hyblygrwydd i wrthsefyll cynnydd yn y defnydd. Mae'r cynnydd yn y defnydd yn ystod y dydd yn dal i fod dim ond hanner y defnydd gyda'r nos. Mae Mobile UK, corff masnach gweithredwyr dyfeisiau symudol yn y Deyrnas Unedig, yn dweud bod gan y rhwydweithiau "[fwy na digon o gapasiti](#)" i ymdopi â'r galw ychwanegol.

Mae ar bawb angen cyflymder band eang digonol er mwyn gweithio'n effeithlon ond mae data o'r Open Market Review 2019 yn honni bod **12,838 o safleoedd yn Sir Gâr â chyflymder llai na 30 megabeit yr eiliad**.

Bydd preswylwyr a busnesau yn ardaloedd gwledig Sir Gâr yn gallu cael mwy o gyllid ar gyfer band eang gwell. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ei bod wedi ychwanegu at werth y Cynllun Talebau Band Eang Gigabeit i'r rheiny sydd â llai na 30 megabeit yr eiliad. Mae gwerth y talebau wedi dyblu a gall y rheiny sy'n gymwys hawlio £7,000 ar gyfer busnes bach i ganolig a £3,000 ar gyfer safleoedd preswyl.

Beth yw'r effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir?

ANSAWDD AER

Mae ein gwaith monitro cyn ac yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud wedi dangos bod y nifer lai o symudiadau traffig ffyrdd wedi arwain at leihad cyfatebol yn lefelau NO₂. Mae hyn i'w groesawu ond nid yw'n syndod; mae'n bwysig inni barhau i fonitro ansawdd aer wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio ac i symudiadau cerbydau gynyddu unwaith eto. Mae'r cyfyngiadau symud wedi ein dysgu ni bod gwneud defnydd effeithiol o'r dechnoleg sydd ar gael a ffyrdd gwell / mwy diogel o deithio cynaliadwy fel cerdded neu feicio yn gallu cael effaith sylweddol ar ein dibyniaeth ar gerbydau ffordd. Gobeithio y gallwn barhau gyda'r arferion hyn gymaint ag sy'n bosibl a choleddu ffyrdd newydd o weithio i helpu i ddiogelu a gwella ansawdd aer i breswylwyr ac ymwelwyr â'r sir.

YR AMGYLCHEDD

Yn fwy nag erioed o'r blaen rydym wedi sylweddoli bod ein hamgylchedd naturiol yn hollbwysig i'n llesiant. Mae tirweddau gwyllt a naturiol yn ein cynnal ni; maen nhw'n rhoi dŵr glân inni ei yfed ac aer ffres inni ei anadlu, maen nhw'n storio carbon ac yn gwarchod ein cartrefi rhag llifogydd, a gallant helpu i'n gwneud ni'n hapus ac yn iach. Mae natur yn rhoi inni'r sylfeini i'n heconomi, ein system ynni, ein bwyd a ffermio. Bioamrywiaeth a chyfraniadau natur i bobl yw ein treftadaeth gyffredin a nhw yw 'rhwyd diogelwch' cynnal bywyd bwysicaf y ddynoliaeth.

Rydym hefyd yng nghanol argyfwng o ran ecoleg a bioamrywiaeth ar yr un lefel â'r argyfwng hinsawdd. Nid dim ond bywyd gwyllt sydd ar ei golled ond ninnau hefyd. Rydym yn erydu union sylfeini ein heconomiâu, bywoliaethau, diogelwch bwyd, iechyd ac ansawdd bywyd ledled y byd. Mae iechyd natur ac iechyd pobl wedi'u cysylltu â'i gilydd, ac mae'r llwybr i adferiad yn dechrau gyda chynllun i roi bywyd gwyllt yn ôl i mewn i'n bywydau.

Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud mae pobl wedi ailddarganfod yr amgylchedd. Ein cynllun Sero-Net Carbon yw ein cynllun blaengar i gyflawni dros yr amgylchedd. Bydd hefyd

angen inni sicrhau bod ein nodau o ran Deddf yr Amgylchedd a bioamrywiaeth yn parhau i gael eu cyflawni.

Yn ystod y pandemig dyfarnodd Llywodraeth Cymru grant inni a fydd yn ariannu plannu dau goetir bach newydd ar dir sy'n eiddo i'r cyngor yn Llanelli a Llandybie. Caiff y coetiroedd eu cynllunio i gynnig llawer o fuddion gan gynnwys mynediad i bobl leol, cynefin i fywyd gwylt a gwelliannau i ansawdd aer. Os dyfernir rhagor o gymorth grant inni, y gobaith yw y caiff rhagor o goetiroedd eu plannu gennym yn y blynyddoedd i ddod.

GWASTRAFF AC AILGYLCHU

Rydym wedi gweld mwy o ddeunyddiau ailgylchadwy wrth ymyl y ffordd (bwyd a gwastraff cymysg sych a gwastraff o'r ardd) yn yr ystyr gyffredinol, ond rydym hefyd wedi gweld mwy o halogi gwastraff. Mae'n bosibl bod aelwydydd wedi magu arferion gwael o ran ymddygiad a all fod yn anodd eu gwrthdroi, neu o leiaf y bydd yn cymryd ymdrech sylweddol yn y tymor canolig i'w gwrthweithio. Yn y tymor byr, mae'n bosibl y bydd lefelau halogi yn cynyddu, gan waethygu ein perfformiad o ran ailgylchu. Ar yr ochr gadarnhaol, mae nifer cwsmeriaid y gwasanaeth gwastraff gwyrdd wedi dyblu bron.

Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref - bydd yr effeithiau yn y tymor canolig a'r tymor hir yn ymwneud â'r ffordd rydym yn rheoli'r gwasanaeth. Mae'r system apwyntiadau yn boblogaidd gyda'r cyhoedd ond wrth gwrs mae nifer lai o ymweliadau. Bydd angen i systemau yn y dyfodol sicrhau cydbwysedd rhwng y ddwy agwedd hyn.

ANSAWDD YR AMGYLCHEDD LLEOL

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion o falltod mewn cymunedau a thirweddau naturiol o ran tipio anghyfreithlon. Cafwyd adroddiadau am achosion o gasglu gwastraff heb drwydded a chwynion am dipio anghyfreithlon mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd. Gwelwyd cynnydd yn nifer y troseddau amgylcheddol. Mae hyn yn berygl i iechyd ac i'r amgylchedd (gan gynnwys taflu sbwriel, tanau). Mae'n bosibl y bydd yn cymryd cryn dipyn o amser i fynd i'r afael â'r arferion hyn felly mae'n broses tymor canolig i dymor hir.

PARCIAU A MEYSYDD CHWARAE

Bydd yr effeithiau yn y tymor byr a'r tymor canolig yn golygu ei bod yn bosibl na fydd y set lawn o weithgareddau a chyfarpar chwarae ar gael o angenrheidrwydd yn ein parciau a'n cyfleusterau meysydd chwarae. Mae'n bosibl mai dyma fydd y sefyllfa yn y tymor canolig e.e. mynd â seddi o set o siglenni mewn meysydd chwarae er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol. Enghraifft arall yw y bydd yr ystafelloedd newid ar gyfer bowls ym Mharc Howard ar gau o hyd, ond bod y lawntiau bowlïo ar agor, felly bydd angen i'r chwaraewyr gyrraedd wedi newid yn barod am y gweithgarwch.

EIDDO

Bydd angen inni barhau â buddsoddiadau sylweddol yn y seilwaith cyfalaf er mwyn hybu'r galw yn y sector adeiladu, i gynorthwyo'r economi wrth iddi ymadfer ac i ysgogi busnes.

CYNLLUNIO

Mae angen inni greu cynlluniau ar gyfer amgylcheddau diogel yng nghanol trefi er mwyn galluogi symudiad synhwyrol trwyddyn nhw a fydd yn rhoi hyder i ddefnyddwyr, preswylwyr a busnesau i ailafael mewn gweithgarwch.

Mae angen i'n canol trefi roi cefnogaeth lawn i fusnesau a gweithgarwch manwerthu, cymdeithasol a hamdden – gyda blaenoriaethau ar unwaith, wedi'u dilyn yn fuan gan brosiectau seilwaith mwy strategol.

Mae angen i'r broses cynllunio wella; gydag ystyriaeth yn y CDLI yn nhermau gweithio gartref a chysyniad byw / gweithio.

Dylai'r Cyngor, gan weithio gyda phartneriaid yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, fabwysiadu egwyddor canol trefi yn gyntaf gan ganolbwyntio ar greu swyddfeydd sector cyhoeddus a hybiau cymunedol. Lle bynnag y bo modd, caiff buddsoddiad ei flaenoriaethu mewn canol trefi, gan ddefnyddio eiddo gwag unwaith eto a chynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant i gynnal economïau canol trefi.

TRAFNIDIAETH

Mae symudedd yn rhan bwysig o fywydau pawb. Os byddwn yn ei chael yn iawn i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed, byddwn yn ei chael yn iawn i bawb, a bydd effaith gadarnhaol ar ein gallu i leihau llygredd aer a chyrraedd targedau o ran lleihau carbon.

Bydd angen i'n system cynllunio sicrhau ein bod yn creu mannau sy'n gwreiddio seilwaith teithio llesol, fel lonydd beicio, galluogi pobl i gerdded neu feicio ar gyfer pob taith fer, gan integreiddio'n llawn â thrafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau hirach.

- Mae angen gwell mynediad a chysylltiadau rhwng canol trefi, safleoedd ar gyrion trefi a chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus
- Mae'r pandemig wedi arwain at newidiadau mawr ym mhatrymau teithio cymudwyr. Peidiodd llawer o weithwyr â theithio i weithle naill ai oherwydd eu bod ar ffyrlo neu wedi dechrau gweithio gartref neu, mewn rhai achosion, wedi colli eu swyddi. Felly bu gostyngiad sydyn yn nifer y bobl oedd yn teithio i weithle.
- Wrth i bobl dychwelyd i'r gwaith mae'n bosibl na fydd trafndiaeth gyhoeddus a rhannu ceir yn dychwelyd i'r lefelau blaenorol. Bydd hefyd angen deall effaith y gwyliau gartref. Bydd angen adolygu teithiau i ysgolion ac addysg.
- Wrth i ragor o bobl gerdded a beicio yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, mae angen ystyried gwella llwybrau troed, gosod arwyddion gwell ar lwybrau ac ailddyrrannu gofod ar y ffyrdd fel bod pellter cymdeithasol mwy diogel i feicwyr a cherddwyr

SEILWAITH DIGIDOL

Bydd cysylltedd digidol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, yn bwysig gan y bydd yn lleihau'r angen i deithio, gan alluogi mynediad i swyddi i ffwrdd o le mae pobl yn byw, gan helpu i wella eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Felly, wrth i fwy o bobl weithio gartref, mae'n debyg o arwain at gynnydd mewn prisiau tai yn Sir Gâr. Felly bydd mwy o alw am dai yng nghefn gwlad ac ar yr arfordir.



GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION/GWASANAETHAU INTEGREDIG

Drwy gydol yr argyfwng hwn ein blaenoriaeth yw parhau i gynorthwyo'r rheiny sy'n cael gwasanaethau, a'u teuluoedd, gwneud hyn yn ddiogel a diogelu'r staff a phobl Sir Gâr.

Yn Sir Gâr nid ydym wedi gweld y cyfraddau heintio na'r marwolaethau y mae rhai Awdurdodau Lleol wedi'u gweld, ond rydym yn parhau i fod yn wylidwrus gyda'n prosesau llywodraethu a'n mesurau rheoli heintiau er mwyn sicrhau y bydd y sefyllfa hon yn parhau.

Cafodd yr holl ddarpariaeth gofal dydd ei hatal ym mis Mawrth. Mae'r rhai oedd yn defnyddio'r gwasanaethau wedi cael eu cynorthwyo mewn ffyrdd eraill ac mae gwasanaethau gofal seibiant cyfyngedig wedi parhau. O fewn y Gwasanaethau Anabledd Dysgu, trefnwyd gweithgareddau rhithwir trwy Skype neu mae timau ac unigolion wedi defnyddio adeiladau ar sail un i un lle bu hyn yn angenrheidiol. Danfonwyd pecynnau gweithgareddau i gartrefi pobl a hwyluswyd ymweliadau cartref hefyd er mwyn cynorthwyo teuluoedd.

O fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Integredig mae'r staffio wedi aros yn gymharol sefydlog gydag effaith fach iawn. Er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaethau a lleihau'r effaith ar y maes gwasanaeth, rydym wedi cadw presenoldeb craidd o ran gwaith cymdeithasol a therapi galwedigaethol a rheolwyr. Mewn perthynas â diogelu oedolion, busnes fel arfer yw hi, rydym wedi sefydlu grŵp ymateb COVID-19 amlasiantaethol rhanbarthol. Mae'r Bwrdd Diogelu rhanbarthol a'r is-grwpiau cysylltiedig yn dal i gynnal rhith-gyfarfodydd trwy Skype neu *Microsoft Teams*.

Mae ein Timau Rheoli Gofal wedi cadw mewn cysylltiad â'r rheiny sy'n cael gwasanaethau yn rheolaidd ac wedi mynd ar ymweliadau hanfodol lle bo angen. Defnyddiwyd technoleg fel iPads i gadw mewn cysylltiad â phobl.

Mae'r holl aelodau eraill o'r staff wedi bod yn gweithio gartref ac mae ganddynt yr adnoddau TG i wneud hynny, ynghyd â chyfarpar diogelu personol, rhag ofn bod angen iddynt fynd ar ymweliadau i gartrefi mewn argyfwng.

Cytunwyd ar ddull rhanbarthol cadarn o reoli awdurdodiadau 'trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid' newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, yng ngoleuni'r ffaith na allwn ymweld â chartrefi gofal. Mae'r dull hwn yn sicrhau y cynhelir egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac mae'n gyson â'r canllawiau a gafwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Mae cynlluniau parhad busnes wedi cael eu diweddarau i ymdrin â COVID-19 a rhoddir diweddariadau i'r staff pob dydd ynghyd ag adnodd canolog i'r staff ei ddefnyddio ynghylch unrhyw newid i wasanaeth mewn perthynas â chanllawiau Llywodraeth Cymru a newidiadau deddfwriaethol.

Crëwyd canolbwynt lleoli canolog lle gall gwasanaethau ofyn am staff ychwanegol a hefyd cynnig staff a all helpu gyda gweithrediadau rheng flaen, fel gofal preswyl a gofal cartref. Mae staff o wasanaethau hamdden wedi symud i ofal cartref ac mae staff o wasanaethau dydd wedi helpu gyda gwaith gofal cartref a gofal preswyl. Mae staff mewn rolau gweinyddol wedi darparu cymorth mewn storfa cyfarpar diogelu personol ganolog ac mewn rolau gweinyddol yn y ddarpariaeth gwasanaethau rheng flaen.

Mae gwaith trosolwg rheolwyr, cyfarfodydd timau, goruchwyllo a chymorth yn parhau o bell gan ddefnyddio Skype ac mae'r staff yn gallu manteisio ar wasanaeth llesiant a chymorth.

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Un o ganlyniadau cadarnhaol y pandemig yw'r cydweithio yn y cyngor a gyda sefydliadau allanol. Mae'r nifer sy'n mynychu cyfarfodydd amlasiantaethol wedi cynyddu ac mae fforymau llywodraethu rheolaidd wedi ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau'n gyflym ac ymateb yn fuan i risgiau a nodwyd.

Mae cyfathrebu rhwng partneriaid ac yn y cyngor wedi bod yn hollbwysig gan fod y canllawiau wedi newid yn rheolaidd.

GOFAL CARTREF

Rydym wedi gallu cynnal gwasanaeth gofal cartref effeithiol mewn amgylchiadau anodd eithriadol ac mae'r staff rheng flaen wedi dangos gwydnwch a dewrder.

Mae cyflenwi a darparu digon o gyfarpar diogelu i'r sector wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i ymdeimlad y staff o ddiogelwch. Heb y newid hwn yn y polisi cenedlaethol, byddai'r gwasanaeth wedi bod yn anghynaliadwy - roedd y canllawiau gwreiddiol, yn hytrach na'r polisi, yn dweud os nad oedd gennym ddigon o gyfarpar, y *dylem gyflawni asesiad risg ar gyfer cyfarpar diogelu personol*. Pan oedd gennym ddigon o gyflenwadau wedyn, roeddem yn gallu darparu digon o gyfarpar diogelu personol i'n staff gofal cartref ei wisgo bob amser.

Ymatebasom drwy:

- Adleoli swyddogion gwasanaeth dydd i roi gofal.
- Ad-drefnu pecynnau gofal mwy o faint ar sail asesiadau risg.
- Cyflwyno hyfforddiant carlam a recriwtio treigl. Aeth salwch cyffredinol i lawr yn sylweddol ac roedd llawer o aelodau o'r staff sy'n gweithio rhan amser yn fodlon gwneud oriau ychwanegol.
- Pecyn recriwtio a chadw i staff gofal mewnol. Caiff hwn ei adolygu bob mis.
- Cynyddu cyfraddau gofal cartref a gomisiynir bunt yr awr, dros dro.
- Cyflwyno blaendaliad am oriau a gomisiynir i asiantaethau gofal cartref er mwyn sicrhau y cynhelir y llif arian yn y sector.

Sefydlwyd **POLISI RHEOLI RISG AC UWCHGYFEIRIO** i gartrefi gofal a nyrsio sydd wedi bod yn hollbwysig wrth reoli'r pandemig.

Diben y polisi, sydd wedi cael ei nodi fel maes arfer da, yw:

- Sicrhau bod yna gynlluniau wrth gefn cadarn.
- Lliniaru risgiau niwed i breswylwyr cartrefi gofal a/neu ansawdd gofal cartrefi gofal.
- Atal marwolaethau y mae modd eu hosgoi.
- Sicrhau ymyriadau amserol a phriodol i gynorthwyo ag ymadfer o uwchgyfeiriad yn eu Statws Risg.
- Lleihau, cymaint ag sy'n bosibl, yr effaith mae methiant cartrefi gofal yn ei chael ar y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan.
- Darparu ychwanegedd i Bolisi Uwchgyfeirio Pryderon Rhanbarthol Gorllewin Cymru presennol ar gyfer perfformiad darparwyr a chynorthwyo â dadansoddiad o uwchgyfeirio risgiau pellach yn gysylltiedig â COVID-19 a gweithredu protocolau a phrosesau uwchgyfeirio.
- Darparu proses sy'n caniatáu inni asesu lefel y risg i bob cartref gofal sydd wedi'i gontractio gan y Bwrdd Iechyd neu'r Awdurdod Lleol a darparu trosolwg dyddiol o'r risg honno.
- Darparu proses sy'n caniatáu i sefydliadau ddadansoddi lefel y risg a gweithredu prosesau uwchgyfeirio priodol ac angenrheidiol i liniaru'r risg ac isgyfeirio amserol.

GOFAL PRESWYL

Mae effaith y feirws ar breswylwyr mewn cartrefi gofal wedi achosi pryder difrifol a pharhaus yn Sir Gâr fel y mae ar draws llawer o Gymru.

Eto, gweithredasom yn gyflym, roeddem ymysg y rhai cyntaf i gyflwyno polisi dim ymwelwyr yn yr holl gartrefi ac wedyn i beidio â derbyn preswylwyr heb brawf negyddol.

Roedd y camau gweithredu i gynorthwyo cartrefi yn cynnwys:



- **Dosbarthu cyfarpar diogelu personol** – Erbyn hyn mae gennym y canllawiau a'r cyfarpar mae arnom eu hangen i ddiogelu staff a phreswylwyr.
- **Cynyddu profion**- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cydgysylltu profion systematig yn llwyddiannus mewn cartrefi gofal. Lle bo brigiad o achosion mewn cartref mae uned symudol yn rhoi profion i'r holl staff a phreswylwyr yn y cartrefi hyn bob wythnos. Er y bu cryn oedi wrth roi profion digonol ar waith, mae ein Bwrdd Iechyd Lleol wedi bod ymysg y rhai mwyaf rhagweithiol yng Nghymru.
- **Meini Prawf Derbyn diwygiedig**- Ni chaniateir unrhyw dderbyniadau i gartrefi gofal heb fod prawf negyddol wedi'i gyflawni. Pan gaiff pobl eu rhyddhau o'r ysbyty, erbyn hyn mae'r canllawiau'n

ei gwneud yn ofynnol cael cyfnod pellach o warchod ar ôl prawf negyddol.

- **Rheoli heintiau'n well**- Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud gan y Bwrdd Iechyd i gynghori a chynorthwyo cartrefi gyda mesurau atal a rheoli heintiau, defnyddio cyfarpar diogelu personol, trefnau glanhau gwell a gwahanu preswylwyr heintus a rhai nad ydynt yn heintus i barthau coch a gwyrdd mewn lleoliadau.
- **Cymorth Ariannol** - Mae cymorth ariannol sylweddol yn bodoli wrth i bremiwm gael ei dalu i bob cartref sef £50 am bob lleoliad bob wythnos a chymorth mewn perthynas ag unedau gwag lle na all cartrefi gymryd lleoliadau oherwydd heintiau. Rydym wedi cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y gall y cymorth hwn a gychwynasom ym mis Mawrth 2020 fod ar waith tan ddiwedd 2020-2021 (mae ein dull ni yn ganllawiau cenedlaethol erbyn hyn). Hyd yma nid ydym wedi gweld unrhyw gartrefi'n methu er bod nifer fach o dan bwysau ariannol sylweddol.

Dylid talu teyrnged i'n staff gofal a rheolwyr ardderchog y mae eu hymroddiad wrth ymdrin â'r sefyllfaoedd anoddaf wedi bod yn eithriadol. Mae lefelau salwch yn y grŵp staff hwn yn awr yn is nag y buont cyn yr argyfwng cenedlaethol.

Rwy'n meddwl ei bod yn hynod sut rydym wedi addasu'r ffordd rydym ni'n gweithio er mwyn parhau i gynig gwasanaethau er gwaethaf yr amgylchiadau presennol. Mae'r adborth oddi wrth gleientiaid wedi bod yn gadarnhaol.

Arolwa Staff Mai 2020

Cyfarpar Diogelu Personol

- Ym mis Mawrth roedd pryderon cyffredinol hefyd ledled y sector ynghylch y canllawiau ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol oedd wedi cael eu hail-gyhoeddi ar ddiwedd mis Mawrth.
- Er nad oedd y cyflenwadau'n ddigonol i ddechrau i fodloni'r canllawiau'n llawn ar gyfer y sector gofal cyfan, ers hynny maen nhw wedi parhau i wella ac mae'r cyflenwad oddi wrth Lywodraeth Cymru erbyn hyn yn ddigon i alluogi darparwyr i gydymffurfio â'r canllawiau. Mae'r awdurdod hefyd wedi llwyddo i gaffael cyfarpar diogelu yn uniongyrchol. **Ar adeg**

ysgrifennu hwn rydym wedi dosbarthu mwy nag 1.5 miliwn o dunelli o gyfarpar diogelu i'r sector gofal.

- Yn lleol mae gennym system dosbarthu ganolog ag adnoddau da sy'n gallu danfon cyfarpar diogelu personol 7 diwrnod yr wythnos, 24 awr y dydd. Pan rydym wedi canfod nad yw nifer fach o ddarparwyr yn dilyn y canllawiau, mae pob un wedi cydymffurfio ar ôl ymyriad a chymorth gan ein tîm comisiynu.




Mae staff yn **Llesiant Delta Well-being** yn mynd yr ail filltir i wneud yn siŵr bod pobl agored iawn i niwed yn Sir Gâr yn cael eu cynorthwyo yn ystod y pandemig COVID-19. Gan ddod i'r gwaith pob dydd drwy gydol yr argyfwng cenedlaethol, mae staff wedi gweithio'n ddiflino 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos y tu ôl i'r llenni i gynorthwyo pobl agored i niwed ledled y sir. Mae Llesiant Delta Well-being, Gwasanaeth Llinell Gofal Cyngor Sir Gâr gynt, wedi gwneud oddeutu 5,000 o alwadau i breswylwyr yn Sir Gâr sydd wedi cael llythyrâu gwarchod oddi wrth Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod ganddynt bopeth mae arnynt ei angen i aros yn ddiogel yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Cyflenwyd 80 iPad i breswylwyr cartrefi gofal i gadw mewn cysylltiad â'u hanwyliad

Mae cofnodi'r effaith ar breswylwyr mewn cartrefi gofal yn fanwl gywir yn anodd am fod rhai preswylwyr wedi'u heintio ond heb symptomau a bod llawer yr oedd eu hiechyd yn wael iawn cyn cael eu heintio. Y mesur mwyaf dibynadwy yw'r nifer sy'n marw mewn lleoliadau gofal preswyl uwchben y nifer y byddem yn ei disgwyl fel arfer.

Mae hon yn gyson, yn fras, â'r ffigurau cenedlaethol mwyaf diweddar oddi wrth y Swyddfa Ystadegau Gwladol i lawer o dde a dwyrain Cymru er bod ein ffigurau ni'n cael eu cyfrifo'n wahanol felly dylid bod yn ofalus cyn dod i gasgliadau ar yr adeg gynnar hon. Er bod yna rywffaint o amrywiad naturiol yn y data, o bosibl, mae ein dadansoddiad cynnar yn awgrymu mai clefyd cysylltiedig â COVID-19 sy'n bennaf gyfrifol am y cynnydd hwn.

O'r preswylwyr hynny sydd wedi cael profion cadarnhaol ers i waith monitro ddechrau, mae tua 60% wedi dod yn rhydd o symptomau ers hynny. Felly, gallwn weld, er bod y feirws yn ddifrifol iawn i'r boblogaeth hon, mae llawer o breswylwyr eiddil ac oedrannus yn gallu ymadfer, ac yn ymadfer. Y dystiolaeth gynnar yn lleol yw bod cydberthynas gref rhwng y tebygrwydd y bydd y preswylwyr yn ymadfer ac iechyd cyffredinol y preswylwyr cyn cael ei heintio. Yn y dyfodol bydd sicrhau y gallwn ddangos y caiff yr holl breswylwyr ofal iechyd o'r ansawdd gorau ar sail eu hanghenion fel unigolion yn flaenoriaeth i ni.



GWASANAETHAU ALLWEDDOL ERAILL

Hefyd gwnaethpwyd y canlynol i liniaru effaith ragweledig COVID-19

- Rydym wedi sicrhau cynnydd o 150 o oriau'r wythnos yn y gallu ailalluogi ym maes gofal cartref; mae'n cael ei ddarparu gan sefydliad yn y trydydd sector a darparwr gwasanaeth annibynnol.
- Rydym wedi sicrhau cynnydd o 468 o oriau'r wythnos mewn gwasanaethau cartref, trwy drefnu blociau o oriau gyda dau ddarparwr annibynnol.
- Gallwn ddefnyddio'r ysbytai maes ar gyfer cyfnodau ymadfer cyn rhyddhau cleifion i fynd adref.
- Mae gennym gyfleusterau cam-i-lawr a cham-i-fyny ym maes gofal preswyl.
- Mae gennym fflatiau i'w defnyddio gan bobl sy'n ymadfer o COVID-19 ond sy'n methu mynd adref gan eu bod yn byw gyda phobl sy'n gwarchod. Mae'r fflatiau hyn i bobl nad oes ganddynt anghenion gofal ond a fydd yn cael cymorth gan dîm tai yr adran gyda siopa ac unrhyw broblemau eraill a allai godi.
- Mae'r Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau wedi cael ei gynyddu i ymateb i'r galw ychwanegol a ragwelir.
- Ymateb gwaith cymdeithasol oddi wrth wasanaethau integredig i ddiwallu anghenion oedolion ag anableddau corfforol a phobl hŷn â gofynion cysylltiedig â dementia, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.
- Capasiti Gwaith Cymdeithasol ychwanegol i ymateb i argyfyngau Anabledd Dysgu neu lechyd Meddwl cyffredinol.
- Mae gennym hysbyseb recriwtio treigl am weithwyr cymdeithasol a gofal cartref
- Ymateb gan Uwch Reolwyr 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos i ymholiadau Gofal Cymdeithasol a Bwrdd Iechyd.
- Mae'r awdurdod lleol wedi cyflawni archwiliad o sgiliau'r staff ac wedi sefydlu canolbwynt adleoli canolog i ail-alinio adnoddau staffio â swyddi hanfodol.
- Nododd arolwg gwirfoddolwyr oddeutu 500 o bobl, gan gynnwys oddeutu 100 ar gyfer rolau gofal.
- Erbyn hyn mae adnoddau hyfforddiant cysylltiedig â gofal ar gael ar lein, a sicrhawyd technoleg symudol ychwanegol i gynorthwyo staff ychwanegol yn y rolau hyn.

GWASANAETHAU WEDI'U COMISIYNU

Yn ystod y pandemig mae'r berthynas â'r gwasanaethau yr ydym wedi'u comisiynu wedi bod yn gadarnhaol iawn. Sefydlasom linell gymorth / cyngor COVID-19 gyda llinell a blychau post penodol. Mae hyn wedi galluogi darparwyr i roi gwybod yn uniongyrchol am achosion a amheuir ac wedi gweithredu fel llinell gymorth ar gyfer unrhyw broblemau / pryderon. Hefyd mae'r Tîm Comisiynu wedi gwneud galwadau rhagweithiol er mwyn cadw mewn cysylltiad â darparwyr.

Rydym wedi rhoi canllawiau ar waith ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty ledled y sector gofal er mwyn sicrhau y cânt eu rhyddhau'n ddiogel a bod yna fesurau ar waith i liniaru risgiau.

Rydym wedi sicrhau cyflenwad parhaus o gyfarpar diogelu personol a'r gallu i gael cyngor ynghylch rheoli heintiau.

YSBYTAI MAES

Rydym wedi trosi Canolfannau Hamdden Caerfyrddin a Llanelli, Canolfan Selwyn Samuel ac ysgubor Parc y Scarlets, Llanelli, yn ysbytai dros dro er mwyn darparu gwelyau ychwanegol i'r GIG. [Gweld blog fideo'r Arweinydd](#)

Gwirfoddolodd **mwyn na 360 o bobl** i helpu i drefnu celfi a chyfarpar ym mhedwar ysbyty maes Sir Gâr.

Beth yw'r effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir?

- Yn y tymor byr mae Grwpiau Ymadfer ar ôl COVID-19 wedi cael eu sefydlu ac rydym yn canolbwyntio ar gynlluniau ymadfer i gynnal gwasanaethau ar ôl yr argyfwng.
- Bydd angen inni newid ac addasu'r ffordd rydym yn gweithio, er enghraifft, ni fyddwn yn gallu ailagor ein hadeiladau gwasanaethau dydd am rywfaint o amser er mwyn cydymffurfio â rheolau cadw pellter cymdeithasol a lleihau risg heintio cymaint ag sy'n bosibl.
- Byddwn yn parhau gyda gweithgareddau rhithwir ac yn darparu gwasanaeth i'r rheiny sydd â'r risg fwyaf mewn modd diogel. Bydd hyn yn effeithio ar deuluoedd a gofalwyr y bydd angen cymorth arnynt o hyd felly bydd angen inni wneud hyn mewn modd creadigol.
- Mae COVID-19 wedi rhoi cyfle inni weithio'n arloesol a byddwn yn manteisio ar hyn wrth inni geisio gwella gwasanaethau'n barhaus.
- Bydd effaith COVID-19 yn achosi inni gyflymu ein cynlluniau ar gyfer moderneiddio rhai gwasanaethau e.e. llai o wasanaethau mewn adeiladau, gweithio ystwyth.
- Bydd angen i'r staff fynd yn ôl at gynnal ymweliadau cartref felly bydd angen cyflawni asesiadau risg er mwyn gwneud hyn yn ddiogel.
- Bydd angen i'r staff fod yn barod i fod yn hyblyg ac ymaddasu yn y tymor hir os bydd ansicrwydd yn y dyfodol.
- Rydym eisoes yn gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl, diogelu a chamddefnyddio sylweddau oherwydd y pandemig. Bydd hyn yn achosi galw sylweddol am ein hadnoddau felly mae angen inni flaenoriaethu a gweddnewid gwasanaethau er mwyn ymateb i'r rheiny sy'n fwyaf agored i niwed.
- Mae unigrwydd yn un o'r pethau mae pobl wedi bod yn teimlo yn ystod y pandemig COVID-19, a fydd yn effeithio ar iechyd a lles meddyliol.
- Yn y tymor canolig a'r tymor hirach, bydd y dirwasgiad economaidd yntau yn cael effeithiau negyddol parhaus ar iechyd, a bydd yr effeithiau hyn yn waeth i rai grwpiau na

rhai eraill. Er enghraifft, mae amcangyfrifon diweddar yn awgrymu y gallai colli swyddi cysylltiedig â'r dirwasgiad yn 2008 fod wedi achosi i 900,000 ychwanegol o bobl o oedran gweithio yn y Deyrnas Unedig ddioddef o gyflwr iechyd cronig, gan gynnwys iechyd meddwl <https://www.ifs.org.uk/publications/14800>

- Mae yna effaith ar iechyd a lles ein staff a mwy o atgyfeiriadau at Iechyd Galwedigaethol gyda gorbryder a straen cysylltiedig â'r coronafeirws.
- Bydd effaith ar y gyllideb oherwydd bod llawer o'r gweithgareddau i wella gwasanaethau wedi cael eu hatal yn ystod y pandemig.
- Bydd angen inni ddefnyddio technoleg gymaint ag sy'n bosibl yn y dyfodol gan fod hyn wedi profi'n hanfodol.
- Mae pwysau ar y sector iechyd aciwt yn debyg o gynyddu wrth inni fynd i fisoedd yr hydref / gaeaf. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau cymunedol gofal cymdeithasol ac yn arbennig y sector cartrefi gofal a gofal cartref.

TAI

Aros Gartref Aros yn Ddiogel. Yn ystod y pandemig mae pwysigrwydd cartref diogel wedi bod yn amlycach nag erioed o'r blaen. Ein cartref yw ein noddfa erioed ac mae diogelwch ein cymuned wedi dibynnu ar dai sydd o safon dda ac yn addas at y diben.

Wrth i bobl weithio gartref neu fod ar ffyrlo, wrth i blant gael eu haddysgu gartref, wrth i bobl warchod neu hunanynysu, mae'r cartref wedi bod yn ffactor hanfodol yn y pandemig.

Cynnal Tenantiaethau

Mae Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel wedi cynorthwyo'r 9,000+ o denantiaid y cyngor, yn ogystal â chynnig cyngor a chymorth i'r sector preifat a'r rheiny y bu angen tai arnynt ar frys yn ystod y cyfnod hwn.

- Aethpwyd ati i broffilio ein tenantiaid yn gynnar er mwyn targedu'r mwyaf agored i niwed gyda galwadau lles. Gwnaethpwyd cysylltiadau ac atgyfeiriadau hanfodol i wahanol wasanaethau cymorth, er mwyn sicrhau bod gan denantiaid ddigon o fwyd a chymorth ariannol yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud
- Cynorthwywyd tenantiaid i hawlio Credyd Cynhwysol am eu rhent lle collwyd gwaith/incwm er mwyn sicrhau na fyddai neb o denantiaid y cyngor yn mynd i ôl-ddyledion rhent y gellid eu hosgoi.
- Parhawyd i gynorthwyo tenantiaid i wneud taliadau trwy ffyrdd electronig. Mae talu rhenti wedi cael ei fonitro'n ofalus yn ystod y cyfnod hwn er mwyn sicrhau nad yw tenantiaid yn mynd i ôl-ddyledion rhent a'u bod yn cadw'n ddiogel yn eu cartrefi.
- Ni chychwynwyd unrhyw achosion llys yn ystod y cyfnod hwn; canolbwyntiwyd ar gynorthwyo, helpu ac annog tenantiaid i barhau i dalu rhent pan oedd mwy o demtasiwn, efallai, i wario arian ar eitemau nad oeddent yn hanfodol yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud.
- Parhawyd i gysylltu â'n tenantiaid sy'n hŷn na 70 oed drwy gydol y cyfnod hwn er mwyn sicrhau y gallen nhw ddefnyddio gwasanaethau ac er mwyn lleihau unigrwydd
- Hyrwyddwyd cynllun 'Cysylltu' Llywodraeth Cymru i leihau ynysigrwydd cymdeithasol a gwella iechyd a lles
- Danfonwyd parseli bwyd i denantiaid mewn angen
- Rhoddwyd taliadau caledi i denantiaid mewn tlodi tanwydd a thenantiaid na allant ofyn am arian cyhoeddus
- Cafwyd nwyddau gwynion a chelfi i denantiaid newydd oedd mewn caledi ariannol

- Gweithiwyd yn agos gyda Budd-dal Tai i gael Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai i liniaru effaith diwygio lles
- Partnerwyd gyda Dŵr Cymru i leihau rhwymedigaeth tenantiaid gan arbed mwy na £250 y flwyddyn i bob aelwyd ar gyfartaledd
- Cytunwyd yn wirfoddol i ymestyn ein cyfnod Rhybudd o 3 mis i 6 mis yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru
- Datblygwyd cynlluniau tai personol mewn cysylltiad â'n cronfa atal er mwyn lleihau ôl-ddyledion rhent i denantiaid mae COVID-19 wedi effeithio arnyn nhw
- Ymrwymwyd £100,000 i'n Cronfa Atal i dargedu tenantiaid sydd wedi colli incwm yn ystod y cyfnod hwn.
- Gweithiwyd yn agos gyda phartneriaid yn y trydydd sector gan gynnwys Shelter Cymru i gynnig cyngor ar ddyledion, i gynyddu incwm cymaint ag sy'n bosibl a lleihau rhwymedigaeth ein tenantiaid.

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod gan fwy o bobl ddiddordeb mewn eiddo yng nghefn gwlad. Mae'n bosibl y bydd mwy o ddadleoli cymunedol oherwydd y bydd tai yn mynd yn rhy ddrud i bobl leol felly mae'n bosibl y bydd rhaid iddyn nhw symud allan i ddod o hyd i opsiynau mwy fforddiadwy. Mae'n bosibl y bydd hyn yn erydu cymunedau Cymraeg oherwydd y bydd prisiau cynhyrchion a gwasanaethau'n codi i ddarparu ar gyfer pobl fwy cefnog.

DIGARTREFEDD

Cynnydd o 430% mewn lleoliadau i bobl ddigartref Mewn llety Dros Dro / Argyfwng (32 i 170 rhwng Ebrill a Gorffennaf o gymharu â'r llynedd)

Roedd newid ym Mholisi Digartrefedd Llywodraeth Cymru dyddiau cyn dechrau'r cyfyngiadau symud yn golygu y byddai unrhyw un a ddywedodd ei fod yn ddigartref â hawl i lety trwy'r Cyngor. Diben hyn oedd cyfyngu ar nifer y bobl oedd yn ddigartref ar y stryd neu'r rheiny oedd yn aros ar sofffa ffrindiau, er mwyn rheoli lledaeniad COVID-19. Yn Sir Gâr gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sengl oedd yn gofyn am gymorth â thai trwy'r cyngor; nid oedd ganddyn nhw lety sefydlog neu ni allen nhw fyw gyda'u teuluoedd mwyach oherwydd y risg i eraill oherwydd problemau iechyd sylfaenol. Yn ychwanegol at y galw cyffredinol, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a ryddhawyd o'r carchar yn ystod y cyfnod hwn ac roedd angen cryn dipyn o waith i reoli'r risg a'u lleoli mewn amgylcheddau diogel. Rhyddhawyd 34 o garcharorion i Sir Gâr a chafodd 31 lety dros dro.

Cynyddodd y galw am lety dros dro yn sylweddol. Ar gyfartaledd gwnaethpwyd 11 lleoliad yr wythnos o gymharu â 3 lleoliad yr wythnos y llynedd. Roedd y cyngor hefyd yn methu symud pobl allan o lety dros dro i lety arall o eiddo'r cyngor na landlordiaid cymdeithasol nac yn y sector rhentu preifat. Roedd gwestai a sefydliadau gwely a brecwast wedi cau ac ail-ddynododd y cyngor rai tai llety dros dro yn llety a rennir a chomisiynodd 3 sefydliad gwely a brecwast a ddarparodd 42 o unedau ychwanegol o lety i bobl sengl a rhoddwyd tîm diogelwch yno trwy'r dydd a darparwyd prydau bwyd i'r holl breswylwyr.

Mae swyddogion wedi cael eu hailddosbarthu o fewn y gwasanaeth i gynorthwyo â'r galw llethol yn y rheng flaen yn ogystal â rheoli'r galw am lety dros dro a chanolbwyntio ar symud pobl ymlaen i lety mwy addas er mwyn rhyddhau llety argyfwng. Yn ogystal, galwyd ar y sector gwirfoddol, gan gynnwys y Gegin Gawl a gwasanaethau eraill wedi'u comisiynu, i gynorthwyo â darpariaeth i bobl ddigartref a chymorth i bobl agored i niwed oedd yn aml yn dioddef o broblemau eraill fel iechyd meddwl. Roedd nifer y bobl oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn golygu y bu'n rhaid inni gyflwyno gwasanaeth y tu allan i oriau a bod ar agor ar ddydd Sadwrn i ateb a chynorthwyo ag ymholiadau digartrefedd. Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud

roeddem yn ateb cynifer â 3000 o alwadau'r wythnos, ychydig iawn a fethwyd a llwyddasom i ateb 96% o'r galwadau. Roedd pobl yn gallu dod trwodd atom ni a chael y cymorth yr oedd arnyn nhw ei angen. Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ateb y galw cynyddol, darparu cymorth i'r rheiny oedd yn fwyaf agored i niwed a rheoli'r risg mewn llety dros dro, ffurfiwyd Cell Cydgysylltu Digartrefedd oedd yn cynnwys yr holl bartneriaid allweddol gan gynnwys lechyd y Cyhoedd a'r Heddlu.

Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud gostyngodd nifer y teuluoedd oedd yn ceisio cymorth gan y cyngor oherwydd penderfyniad y Llywodraeth i roi embargo ar yr holl achosion meddiant. Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio mae nifer y bobl sy'n ceisio cymorth â thai yn parhau i godi. Yn ystod wythnos gyntaf mis Gorffennaf roedd nifer y bobl oedd yn ceisio cymorth â thai mewn un wythnos wedi cynyddu i 60 o gymharu â 31 yr wythnos ar gyfartaledd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, sef 94% o gynnydd yn y galw.

Cyngor Tai a Thenantiaeth

“Rwy'n gwerthfawrogi'ch help cymaint... Rwy'n wirioneddol ddiolchgar am yr amser a'r help rydych chi'n eu rhoi imi”

HAMDDEN

Rydym wedi **cadw mewn cysylltiad â 563 o gleientiaid o'r Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff** drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud, gan gynnig cymorth a chyngor ar sut i gadw'n egniol ac yn iach. I wneud hyn roedd angen gwneud 2,878 o alwadau ffôn a gymerodd bron 1,500 o oriau ac anfonwyd 668 o raglenni cartref.

‘Mae'ch negeseuon wedi gwneud imi deimlo llai ar fy mhen fy hun’

‘Rydyn ni'n hynod ddiolchgar am y gofal a'r consyrn a ddangoswyd atom ni ers i'r dosbarthiadau ffitrwydd gael eu hatal dros dro’

- Rydym wedi creu nifer o [ddosbarthiadau ffitrwydd ar-lein](#) i aelodau Hamdden Actif i'w defnyddio'n ddi-dâl yn ystod y cyfnod mae ein cyfleusterau hamdden wedi bod ar gau, ac rydym wrthi'n datblygu cynnig Actif Unrhyw Le newydd i ddarparu aelodau a gweithgareddau ar-lein yn y dyfodol
- Rydym wedi cynorthwyo Chwaraeon Cymru gyda 66 o geisiadau clybiau chwaraeon i'r Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng, gwerth mwy na £40,000 o gyllid i ddiogelu clybiau yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud
- Rydym wedi ymgynghori â mwy na 55 o glybiau mewn 6 wythnos ynghylch ceisiadau i Gronfa Actif Cymru
- Rydym wedi cynnal 3 gweminar i glybiau a daeth 87 o glybiau a sefydliadau chwaraeon i gyd (1 sesiwn Cymraeg yn unig)
- Rydym wedi gweithio gyda Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol bob cylch 3 wythnos ar eu Mapiau Trywydd Dychwelyd i Chwarae a chynorthwyo clybiau mewn ymateb i'r newidiadau hyn trwy eu helpu gydag asesiadau risg, penodiadau Cydgysylltwyr COVID-19, rhoi gweithdrefnau profi, monitro ac olrhain ar waith ac ati
- Rydym yn paratoi i lansio rhaglen Llysgenhadon Cymunedau Actif yn gynnwys ym mis Medi er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol anffurfiol yn y gymuned.
- Rydym yn cynorthwyo canolfannau gwyliau ysgol trwy ddarparu gweithgareddau ar gyfer yr amserlen 3 wythnos gyfan.

Cafodd dwsinau o staff Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored eu hadleoli i gynorthwyo gwasanaethau eraill neu eu rhoi ar ffyrlo er mwyn lleihau costau diangen i'r awdurdod. Mae llawer o'r staff wedi defnyddio'r amser i ddilyn hyfforddiant ar-lein ac i ehangu eu sgiliau cyflogaeth cyffredinol.

Mae ein gwasanaethau llyfrgelloedd wedi parhau i ddarparu mynediad i'n [llyfrgell ar-lein](#) i ddegau o filoedd o breswylwyr drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud, ac wedi datblygu gwasanaeth clicio a chasglu newydd fel rhan o'u cynllun ymadfer graddol.

Mae'r cyhoedd wedi aiddarganfod eu hoffter o gerdded, natur a'r awyr agored gan ddefnyddio rhwydwaith enfawr yr awdurdod o hawliau tramwy a llwybrau troed cyhoeddus. Roedd manau awyr agored fel Parc Gwledig Pen-bre a pharciau ledled y Sir ymysg y manau cyntaf i ailagor, gan ganiatáu i bobl gynnal eu lles corfforol a meddyliol.

PROFI, OLRHAIN, DIOGELU

Rydym wedi bod yn llwyddiannus wrth ddilyn i fyny yn ein gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu.

Mae cyrff cyhoeddus a busnesau lletygarwch yng ngorllewin Cymru yn cydweithio i brofi ac olrhain unrhyw un sydd â symptomau Coronafeirws mewn ymdrech barhaus i ddiogelu ein cymunedau.

[i Profi, Orlhain, Diogelu](#)


Yn ogystal â gwneud gwaith olrhain cysylltiadau achosion o COVID-19 sydd wedi'u cadarnhau, canfod cysylltiadau a dilyn i fyny'r cysylltiadau a ganfyddir, mae tîm o Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd sydd wedi bod yn cynorthwyo cartrefi gofal drwy gydol cyfnod y pandemig gyda chynghor ar reoli heintiau a defnyddio cemegion wrth wneud gwaith glanhau.

IECHYD YR AMGYLCHEDD

Mae ôl-groniad o 600 o ymweliadau cyfun hylendid a safonau bwyd a 200 o ymweliadau porthiant anifeiliaid. Mae 60+ o fusnesau newydd i gael eu gweld.

Bu 60% o gynnydd yn nifer y cwynion am lygod mawr, oherwydd bod mwy o bobl gartref ac yn gallu eu gweld, ynghyd ag ôl-groniad o wastraff a chynnydd mewn achosion o dipio anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei reoli.

MATERION BUSNESAU A PHRYNWYR



Gwnaethpwyd 1,408 o ymholiadau ac ymweliadau a arweiniwyd gan wybodaeth i fangreioedd oedd yn torri gofynion o ran cau, yn aml y tu allan i oriau gweithio. At ei gilydd cydymffurfiodd busnesau, a dim ond un hysbysiad cau a ddyroddwyd. Rhoddwyd cynghor helaeth i'r fasnach drwyddedig. Ar ddechrau cyfnod yr argyfwng achoswyd effeithiau mawr ar

y tîm gan lif newydd o ymholiadau oddi wrth fusnesau ynghylch arallgyfeirio i allu cynnig bwyd i fynd a gwasanaethau danfon bwyd. Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio ceir mwy o ymholiadau ynghylch sut y gall busnesau gydymffurfio'n ymarferol â gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol a Phrofi, Orlhain, Diogelu.

Gwnaethpwyd 55 o alwadau lles i ddefnyddwyr agored i niwed sydd â dyfeisiau atal galwadau wedi'u gosod. Dangosodd y fenter lle yr oedd angen cymorth ychwanegol (e.e. mynediad at ddanfoniadau bwyd, casgliadau presgripsiynau ac ati) a cheisiodd atal unigrwydd.

Gan weithio gyda banciau buom yn *codi arian fel trydydd partion* ar ran pobl oedd yn gwarchod / hunanynysu yr oedd arnyn nhw angen arian parod i dalu am nwyddau yr oedd gwirfoddolwyr yn eu prynu iddyn nhw.

Ymwelwyd â 1,825 o gartrefi i rybuddio yn erbyn *masnachu twyllodrus a sgamiau* yn ystod cyfnod yr argyfwng. Aethpwyd ar ymweliadau ar y cyd gyda Heddlu Dyfed Powys mewn Ardaloedd Dim Galw Diwahoddiad yn rhan o ymateb amlasiantaethol i'r cynnydd a gofnodwyd mewn masnachu twyllodrus. Defnyddiwyd taflenni gwybodaeth am dwyll i gyfleu gwybodaeth hanfodol i breswylwyr.

Anfonwyd cyngor am sgamiau cysylltiedig â COVID-19 trwy e-bost at 1,500 o fusnesau.

Gwnaethpwyd ymchwil helaeth i ddiogelwch ac addasrwydd cyfarpar diogelu personol oedd yn cael eu cyflenwi i'r awdurdod, gan gynnwys masgiau wyneb, glanweithydd a chyfarpar sganio tymheredd y corff. Gan ymateb i ymholiadau a ddaeth i law oddi wrth fasnachwyr ac adrannau mewnol, rhoesom gyngor a chymorth ynghylch amrywiaeth o faterion yn ymwneud â diogelwch cynhyrchion.

Hefyd rydym wedi hwyluso profion ar lanweithydd dwylo trwy gysylltu â labordy a chyflymu'r broses er mwyn sicrhau canlyniad cyn pen 48 awr. Rhoddwyd cyngor ar labelu, ac rydym wedi edrych ar ardystiadau a chanlyniadau profion a ddarparwyd gan ddarpar gyflenwyr. Rydym wedi helpu llawer o gyflenwyr lleol i barhau i allu masnachu trwy sicrhau bod y cynhyrchion roedden nhw'n eu cynnig yn ddiogel, oedd yn caniatáu iddyn nhw aros yn gystadleuol.

O gofio natur ddigynsail y rheoliadau hyn, rydym wedi parhau ag ymateb cymesur i waith gorfodi, wedi ceisio cynghori ac arwain busnesau ac ar yr un pryd deall y caledi roedden nhw'n ei ddioddef. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio'n raddol ac wrth inni ddechrau cefnu ar y cyfyngiadau symud, mae swyddogion yn parhau i weithio'n ddiflino i roi cyngor cydlynus a'r canllawiau mwyaf diweddar i fusnesau er mwyn iddyn nhw allu ailddechrau ac ailadeiladu ac ar yr un pryd parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau angenrheidiol er mwyn sicrhau y diogelir y cyhoedd o hyd.

Rydym ni ar waith, ac mae busnes yn dda hyd yma.

Diolch am drosglwyddo fy neges e-bost at Adran Diogelu'r Cyhoedd, ffoniodd yr adran fi ac roedden nhw o gymorth mawr a rhoeson nhw lawer o gyngor inni.

Rydym ni'n masnachu o'r drws ffrynt gyda bwrdd a sgrin i fyny am y tro. Mae tu mewn y siop wedi cael ei addasu eisoes ond am y tro rydym ni'n teimlo'n well wrth werthu o'r drws ffrynt. Rydym ni hefyd yn ceisio gweithio gydag apwyntiadau wedi'u hamseru, er mwyn cyfyngu ar nifer y bobl sydd wrth y siop ar unrhyw adeg benodol.

Diolch hefyd mewn perthynas â ffi eleni, mae hynny'n garedig ohonoch chi. Rhaid imi ddweud bod Cyngor Sir Gâr wedi bod yn wych ym mhob ffordd ers dechrau'r cyfyngiadau symud.

Cawsom ni ein harian grant cyn pen 8 diwrnod, ac maen nhw wedi rhoi gwybodaeth reolaidd inni trwy e-bost yr holl ffordd drwodd. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

Mae'r cynllun wedi bod yn wych i ni ac mae wir yn gwneud inni sefyll allan oddi wrth ein cystadleuwyr.

Canmollaeth a ddaeth i law oddi wrth Carmarthen Electronics



LLYWODRAETHU

Yn draddodiadol mae Llywodraeth Leol wedi cynnal ei chyfarfodydd democrataidd fel cyfarfodydd ffisegol yn ei Siambrau. Ar 28 Chwefror 2020 cadarnhawyd yr achos cyntaf o COVID-19 yng Nghymru. Parhaodd cyfarfodydd democrataidd am gyfnod ar ôl hyn; cyfarfu'r Cyngor Sir ar 10 Mawrth a'r Bwrdd Gweithredol ar 16 Mawrth, er bod 2 achos o COVID-19 wedi cael eu cadarnhau yn Sir Gâr yn y cyfamser.

Ar 12 Mawrth 2020 symudodd swyddogion i Drefn Reoli Aur ac ar 18 Mawrth 2020 bu'n rhaid i'r Prif Weithredwr benderfynu atal y rhan fwyaf o gyfarfodydd democrataidd fel rhagofal.

Ar 19 Mawrth bu'n rhaid penderfynu cau adeiladau gweinyddol yr Awdurdod i'r cyhoedd er mwyn diogelu'r staff.

Ar noson 23 Mawrth 2020, cyhoeddodd Prif Weinidog y DU, Boris Johnson, '**gyfyngiadau symud**' mewn ymgais i atal lledaeniad y feirws. Rhoddodd gyfarwyddyd i'r wlad aros gartref ac eithrio at ddibenion cyfyngedig, gan gynnwys teithio i'r gwaith ac yn ôl, ond dim ond lle roedd yn gwbl angenrheidiol ac nad oedd modd i'r gwaith gael ei wneud gartref.

Ar 10 Mehefin, cafodd [cyfarfodydd y Cyngor Sir](#) eu hadfer trwy gyfrwng digidol.

Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud rydym wedi achub ar y cyfle i fuddsoddi mewn technoleg newydd, gyda gwell cyfleusterau sain a gweledol yn Siambur y Cyngor yn Neuadd y Sir.

TECHNOLEG GWYBODAETH

Mae'r rhyngwrwyd mor bwysig i gymaint o'r hyn a wnawn yn ein bywydau heddiw ac mae'n cael effaith gynyddol ar wasanaethau cyhoeddus hefyd. Roeddem yn benderfynol o goleddu'r chwyldro digidol a sicrhau ein bod mewn sefyllfa i fanteisio'n llawn ar y newidiadau mawr mae technoleg newydd yn eu creu. Nododd ein [Strategaeth Technoleg Ddigidol](#) ymagwedd newydd a fyddai'n sail i bron popeth a wnawn fel Cyngor a phan darodd y pandemig roeddem yn ddigon parod.

Roeddem wedi bod yn manteisio ar lwyfannau digidol newydd er mwyn i'n preswylwyr a busnesau allu cael gwybodaeth neu ymdrin â'r awdurdod lleol mewn ffyrdd sy'n hwylus iddyn nhw ac oedd hefyd yn arbed arian cyhoeddus. Oherwydd y weledigaeth hon a'r buddsoddiad hwn roeddem mewn sefyllfa ffafriol ar ddechrau'r pandemig i symud gwasanaethau ar lein a hwyluso gweithio gartref.

NOD Y STRATEGAETH TRAWSNEWID DIGIDOL

Ymagwedd Cwmwl yn Gyntaf

- Roedd hon wedi ei gwneud yn bosibl datblygu datrysiadau seiliedig ar y cwmwl yn gyflym yn ystod y pandemig
- Roedd hon wedi galluogi staff i weithio o'r lleoliadau gorau posibl

Rhwydwaith Data a Llais Cydnerth

- Y rhwydwaith yw sylfaen popeth a wnawn yn nhermau technoleg

Gweithle Digidol Modern

- Roedd ein gwaith wrth rymuso ein gweithlu i fod mor effeithlon ac effeithiol ag sy'n bosibl yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, ar sail anghenion y gwaith o ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion, o fudd mawr inni yn ystod y pandemig.
- Roedd ein **rhaglen Gweithio Ystwyth eisoes wedi sicrhau 80% o liniaduron ac 20% o gyfrifiaduron pen desg** - rhaid i weithlu ystwyth allu gweithio o'r lleoliad mwyaf priodol ar yr adeg fwyaf priodol. Roedd rhoi ar waith a gosod Microsoft Teams a'r newid i gyfarfodydd di-bapur i gyd yn gwneud synnwyr o ran busnes ond pan darodd y pandemig profwyd bod y paratodau hyn wedi bod yn hanfodol.

Canolfannau data diogel a chydnerth

- Cyfuno gweinyddion, data a rhaglenni, gwell perfformiad cyffredinol trwy fabwysiadu'r dulliau storio cyflym diweddaraf, gan wneud y defnydd gorau o dechnoleg a'n paratoi i symud i'r cwmwl.

Nid oeddem wedi rhagweld rhai o'r galwadau oedd yn ofynnol oherwydd y pandemig ond roeddem mewn sefyllfa dda iawn – serch hynny camodd y staff i'r bwloch gan ddangos creadigrwydd ac ymroddiad mawr

Darparwyd y cyfarpar canlynol:

- 1,603 o ddyfeisiau i fyfyrwyr gartref
- 241 o ddyfeisiau cysylltedd symudol i fyfyrwyr gartref
- 80 iPad i breswylwyr cartrefi gofal i gadw mewn cysylltiad â'u hanwyliaid
- Fe wnaethom yn siŵr y gallai'r holl aelodau ymbresenoli mewn Cyfarfodydd Cyngor rhithwir

**“Da iawn chi am ddosbarthu iPads i gartrefi gofal yn Sir Gâr. Rwy'n eich llongyfarch.”
Canmoliaeth a ddaeth i law**

15,539 o gofrestrïadau newydd i Fy Nghyfrif Hwb yn ystod y cyfnod o ganol mis Mawrth i ganol mis Mehefin 2020. *(Mae hyn yn galluogi ein cwsmeriaid i reoli ceisiadau diweddar a'u Treth Gyngor ac i wneud bwciadau a thaliadau ac ati)*

<https://myaccount.carmarthenshire.gov.wales/cy>

Mae hyn yn **186%** o gynnydd ers yr un cyfnod y llynedd



Mae gwasanaethau ar-lein ychwanegol wedi bod ar gael gan ein bod yn gweithredu mewn modd gwahanol oherwydd COVID-19:

- Trefnu slotiau mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
- Taliadau uniongyrchol prydau ysgol am ddim
- Trefnu casgliadau llyfrgelloedd
- Ceisiadau am Becynnau Ysgogiad Cyllidol i Fusnesau

Oherwydd bod mwy o'r gweithlu yn gweithio gartref, gostyngodd milltiredd busnes yn y cyfnod Ebrill-Mehefin o 1,037,697 o filltiroedd i 567,772 o filltiroedd (45.3%) a gostyngodd taliadau milltiredd dros yr un cyfnod o £445,388.63 i £255,507.18 (42.6%) **gan arbed £189,881.45 dros y 3 mis a 139 o dunelli o allyriadau CO₂ (47%).**

Beth yw'r effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir?

Yn y tymor hir, mae'r cynnydd enfawr mewn gweithio gartref yn cynnig prawf gwerthfawr ar gyfer mabwysiadu datrysiadau hyblyg o ran gweithio a darparu gwasanaethau ar ôl yr argyfwng presennol.

Bydd datrysiadau digidol yn chwarae mwyfwy o ran yn ein modelau cynllunio a chyflenwi.

CANMOLIAETH A CHWYNION

Mae CANMOLIAETH wedi cynyddu 150%

Yn ystod y cyfnod Ebrill – Mehefin 2020 cawsom **265 o negeseuon o ganmoliaeth** o gymharu â 106 yn yr un cyfnod y llynedd. Mae hyn yn dangos lefelau sylweddol o foddhad cwsmeriaid gyda'r gwasanaethau a gawsant, gan gynnwys y rheiny oedd yn gysylltiedig â COVID-19, yn ogystal â gwerthfawrogiad o ymdrechion y Cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau craidd yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud.

Mae CWYNION wedi lleihau 47%

Bu lleihad sylweddol yn nifer y cwynion; daeth 163 i law yn ystod y cyfnod Ebrill – Mehefin 2020 o gymharu â 310 yn ystod yr un cyfnod y llynedd (*er nad oes modd cymharu'r ddau gyfnod hyn oherwydd y pandemig*).

CYFATHREBU

“Gwybodus, defnyddiol ac o gymorth mawr i breswylwyr Sir Gâr” Canmoliaeth

MAE YMWELIADAU Â'R WEFAN WEDI CYNYDDU BRON 50%



Ym
m
agor
pr
C
al
gy

G
G

SUT Y BYDDWN YN GWEITHIO AR ÔL COVID-19

Ym mis Mai, cymerodd **2,543 (32%)** o'n staff ar draws yr holl adrannau ran mewn arolwg ar y ffordd newydd o weithio ar ôl dechrau'r pandemig COVID-19. Bydd y canlyniadau yn helpu i lywio ein ffordd o weithio yn y dyfodol.

Sut ydych chi wedi cael y ffordd newydd o weithio? (h.y. cyfyngiadau'r cyfnod clo)

- **Dywedodd 46% 'da' / dywedodd 24% 'da iawn'**
- **Dywedodd 25% 'ansicr'**
- **Dywedodd 4% 'drwg' / dywedodd 1% 'drwg iawn'**

Y PETHAU CADARNHAOL:

- Newid didrfferth oherwydd ansawdd y systemau cyfathrebu TG sydd ar gael (Skype, Microsoft Teams, e-bost).
- Dim 'teithio dibwrpas' i fan gwaith pob dydd.
- Gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- Llai i dynnu sylw / amgylchedd mwy hamddenol a roddodd hwb i gynhyrchiant.
- Gwell lefel o ymddiriedaeth a roddwyd gan reolwyr
- Arbed arian ar ofal plant
- Sicrhaodd rheolwyr ddigon o weithfannau
- Hwylusodd cyfleusterau ar-lein / digidol y newid o addysgu mewn ystafelloedd dosbarth i gartref.
- Mae wedi bod yn hawdd cadw mewn cysylltiad â disgyblion a chydweithwyr.
- Mwy o amser i baratoi adnoddau a gwersi, datblygiad proffesiynol a gwaith gweinyddol.
- Cyfarwyddiadau clir oddi wrth benaethiaid wedi bod o fudd.

*Cafodd **94%** gyfathrebiadau oddi wrth eu rheolwr llinell uniongyrchol o leiaf unwaith yr wythnos a 79% oddi wrth reolwyr eraill.*

Y PETHAU NEGyddOL:

- Colli cysylltiad wyneb yn wyneb â chydweithwyr.
- Gall fod yn unig.
- Bywyd y gwaith a gartref fel pe baent yn ymdoddi'n un.
- Nid yw rhai rolau'n bosibl oherwydd cyfyngiadau.
- Mae cydbwysu gofal plant, addysgu gartref a gweithio gartref yn achosi straen.
- Mae staff nad ydynt yn gweithio gartref yn gweithio mewn amodau llawn risg heb gyfarpar diogelu personol.
- Rhywfaint o anghysondeb / dim digon o wybodaeth oddi wrth reolwyr.
- Rhannu llwythi gwaith yn annheg yn achosi trallod.
- Nid yw'r amgylchedd gweithio gartref o safon ddigon da, gan achosi problemau cyhyrsgerbydol.
- Diffyg cyfarpar diogelu personol i'r rheiny sy'n gweithio yn yr Hybiau.
- Anodd cadw pellter cymdeithasol mewn rhai Hybiau oherwydd gorlawnder.
- Anodd sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ymgysylltu â gwersi / gwaith a osodir.

*Dywedodd **53%** eu bod yn wynebu rhwystrau yn eu ffordd newydd o weithio*

BETH YDYM NI'N EI WNEUD YNGHYLCH HYN?

- Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar ein trefniadau gweithio yn y tymor hirach a byddwn yn cynnwys y staff yn yr olwg a fydd ar y dyfodol.
- Rydym wedi creu nifer o diwtorialau ar-lein ynghyd ag amrywiaeth o fathau eraill o gymorth a chynghor o ran TG.
- Mae pawb sy'n gweithio gartref wedi cael cymorth i wneud eu hasesiadau eu hunain o'u gweithfan i sicrhau eu bod yn gweithio'n ddiogel a darparwyd cyfarpar ychwanegol iddyn nhw lle bo angen.
- Rydym wedi sefydlu swydd Rheoli Heintiau benodol sydd â'r nod o sicrhau y darperir yr holl gyfarpar diogelu personol gofynnol yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

- Yn y dyfodol byddwn yn edrych ar ddarparu datrysiadau digidol ar gyfer amrywiaeth o gyfleoedd dysgu.
- Rydym ni'n gweithio'n galed i sicrhau bod ein holl ysgolion, swyddfeydd a depos yn barod i'r staff ddychwelyd iddynt.
- Mae pandemig y Coronafeirws wedi helpu i leihau'r gweithio mewn seilos gan ein bod wedi cydweithio i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau drwy gydol cyfnod COVID-19. Rydym ni'n gweithio i sicrhau y bydd hyn yn parhau.

SUT Y GWEITHIODD EIN STAFF TRWY'R PANDEMIG COVID-19

Cafodd nifer o aelodau o'n staff eu symud i wahanol swyddi fel Canolfannau Gofal Plant, dosbarthu pecynnau bwyd, gweithio yn ein cartrefi gofal a gofal cymdeithasol oedolion, casglu sbwriel a chynorthwyo ysgolion gyda gweithio ar lein.



CYDRADDOLDEB

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi briffiad ar Addysg, Gofal Cymdeithasol, Mannau Agored, Hygyrchedd Mannau Cyhoeddus a Chyflogaeth i nodi ystyriaethau wrth ailosod gwasanaethau wrth ymadfer. Mae'r pandemig COVID-19 wedi arwain at newidiadau helaeth anochel yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu ei bod yn fwy hanfodol byth i awdurdodau lleol barchu anghenion yr holl ddefnyddwyr gwasanaethau.

CYLLID

Yn gyffredinol, rhagwelwn **orwariant diwedd blwyddyn o £7,605,000** ar gyllideb referniw net yr Awdurdod gyda gorwariant ar lefel adrannol o £8,205,000.

Mae'r sefyllfa ddigynsail hon oherwydd cyfuniad o gostau anadenilladwy ychwanegol oherwydd gweithgarwch COVID-19, incwm a ildwyd o wasanaethau a gaewyd na fyddan nhw'n cael eu had-dalu'n llawn, o bosibl, gan Lywodraeth Cymru, a chynigion cynlluniedig ar gyfer arbedion na fu modd eu rhoi ar waith oherwydd y pandemig.

Nid yw'r rhagolwg hwn yn cynnwys unrhyw lwfans am leihad yn y Dreth Gyngor a gesglir. Er bod Sir Gâr wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn taliadau yn ystod y chwarter cyntaf, nid yw'n glir i ba raddau mae hyn oherwydd caledi ariannol preswylwyr neu gyfyngiadau'r cyfnod clo. *Mae'r maes hwn yn cael ei fonitro'n fanwl gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol gan fod pob gostyngiad o 1% yn y dreth a gesglir yn werth bron £1 miliwn.*

Mae rhagolwg y flwyddyn lawn yn cynnwys sefyllfaoedd ariannol hysbys hyd at adeg ysgrifennu hwn yn ogystal â rhagdybiaethau ynghylch lefelau cyllid COVID-19 gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. O'r herwydd, mae'r ffigurau'n hynod o sensitif i newidiadau yn y rhagdybiaethau hyn. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cyflwyno hawliad caledi misol am wariant COVID-19 ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o'r costau'n cael eu had-dalu, er y bernir bod rhai yn anghymwys ac nid yw'n glir am faint y bydd y mecanwaith cyllido hwn yn parhau. Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau yr ad-delir rhai rhannau allweddol o incwm a gollwyd fel *Gwastraff, Hamdden, Diwylliant, Parcio a Phrydau Ysgol* ar gyfer Ebrill – Mehefin, er unwaith eto nid yw'r darlun llawn yn glir ar hyn o bryd.

Ar 17 Awst, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *gymorth ariannol ychwanegol gwerth £260 miliwn i Awdurdodau Lleol*, gan olygu mai cyfanswm y cymorth yw rhyw hanner biliwn o bunnoedd. Fodd bynnag, nid yw manylion yr hyn sy'n cael ei gynnwys neu y bernir ei fod yn anghymwys yn glir eto.

Yn fras, rhagdybir y bydd gwasanaethau'n mynd yn ôl i lefelau gweithgarwch arferol yn raddol dros y flwyddyn ariannol ac y bydd cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer costau ychwanegol yn lleihau gydag amser. Yn benodol, ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer costau ychwanegol na cholli rhagor o incwm oherwydd cyfyngiadau symud lleol neu ail don dros fisoedd y gaeaf.

Ni fydd yn fater o ailddechrau a mynd yn ôl i'r ffordd yr oeddem ni. Dyma gyfle i adnewyddu fel y bwriadwn fynd ymlaen. Mae un peth yn amlwg, ni allwn ac ni fyddwn yn dychwelyd i'r sefyllfa oedd ohoni cyn COVID-19.




1. Rhaid inni wneud yn siŵr ein bod ni'n dysgu o'r profiad digynsail hwn wrth inni ailgyflwyno ein gwasanaethau ac ailosod ein blaenoriaethau strategol a gweithredol. Rhaid inni nodi ein pwyntiau dysgu allweddol ar lefel y sefydliad a ledled ein gwasanaethau. Er mwyn cyflawni hyn mae ein Tîm Trawsnewid ac Arloesi a Newid yn cynnal gwerthusiad strategol.
2. Bydd angen hefyd inni ailosod ein '*Cynllun 5 Mlynedd Symud Sir Gâr Ymlaen*' a'n *Strategaeth Gorfforaethol* ac ailedrych ar ein *Hamcanion Llesiant*.
3. Bydd angen inni ailystyried ein cynlluniau busnes ar gyfer 2020-21 a'r hyn y byddwn yn ei fonitro trwy gydol gweddill 2020/21 a dechrau llunio ein dull Cynllunio Busnes ar gyfer 2021/22.
4. Cyn COVID-19 roedd economi'r Deyrnas Unedig yn rhoi blaenoriaeth i dwf economaidd, yn gorfodi tlodi ar lawer o bobl ac yn sgil hynny yn creu poblogaeth afiach sy'n arbennig o agored i argyfyngau byd-eang fel pandemigau. Mae'n hanfodol i'r gwaith ailosod fynd i'r afael â phethau na allwn fforddio eu hanwybyddu - fel yr argyfwng iechyd presennol, yr argyfwng economaidd mae'r pandemig wedi'i sbarduno ac argyfyngau parhaus yr hinsawdd a natur. Mae gennym gyfle i arwain y ffordd gyda syniadau llawn gweledigaeth a buddsoddiad trawsnewidiol, i ddyfodol wedi'i seilio ar lesiant.
5. Ym mis Mai, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ei hadroddiad ar gynnydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a gwnaeth nifer o argymhellion ar gyfer y dyfodol y mae'n rhaid inni eu hystyried ledled ein holl wasanaethau. [Dolen i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020](#)
6. Mae *Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol* wedi gwneud rhai argymhellion ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig i gyrff cyhoeddus yng Nghymru:
 - I. Datblygu pecyn ysgogi economaidd sy'n arwain at greu swyddi ac sy'n cynorthwyo datgarboneiddio cartrefi, drwy adeiladu tai newydd carbon isel fforddiadwy a buddsoddi mewn rhaglen genedlaethol i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol.
 - II. Buddsoddi mewn gwell dulliau o gysylltu a symud pobl, drwy wella cysylltedd digidol, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.
 - III. Buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant i gynorthwyo'r trawsnewid i well dyfodol, gan greu swyddi newydd gwyrddach.
 - IV. Buddsoddi mewn natur a rhoi blaenoriaeth i ariannu a chymorth graddfa fawr i adferiad cynefinoedd a bywyd gwylt, creu a chysylltedd ledled Cymru – yn cynnwys ar gyfer amddiffynfeydd llifogydd naturiol, gweithredu'r goedwig genedlaethol newydd a sicrhau bod rheoli defnydd tir ac amaeth yn cynorthwyo sicrhau cadwyni bwyd lleol a dosbarthu.
 - V. Buddsoddi yn niwydiannau a thechnolegau'r dyfodol, a chynorthwyo busnesau, a fydd yn helpu Cymru i arwain y chwyldro carbon isel a chloi cyfoeth a swyddi mewn ardaloedd lleol gyda buddsoddiad yn yr economi sylfaenol.
7. Bydd datrysiadau digidol yn chwarae mwyfwy o ran yn y gwaith o lywio'r hyn a wnawn.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae hon yn Ddeddf a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn newid agweddau ar y ffordd rydym ni'n gweithio. Diben cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus i wella llesiant Cymru yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i bwriadu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r ddeddf yn dweud bod: -

- a) Rhaid inni sicrhau datblygu cynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Egwyddor datblygu cynaliadwy yw **'... rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.'**
- b) Rhaid inni ddangos 5 ffordd o weithio:
Hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal
- c) Rhaid inni weithio tuag at gyflawni pob un o'r 7 nod llesiant cenedlaethol yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd maen nhw'n darparu cyd-weledigaeth i gyrff cyhoeddus weithio tuag ati.



Am y tro cyntaf yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu cyd-weledigaeth i'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag ati. Mae'n ofynnol gan y gyfraith i bob corff cyhoeddus yng Nghymru bennu a chyhoeddi Amcanion Llesiant sy'n sicrhau y gwnawn y cyfraniad mwyaf posibl i'r Nodau Llesiant cenedlaethol hyn.

Yn Sir Gâr, rydym wedi ymgorffori'r Nodau Llesiant hyn i'n Strategaeth Gorfforaethol 2018-23 yr ydym yn ei hadnewyddu bob blwyddyn. Dyma ein hymagwedd: -

'Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus.'

Coronafeirws (COVID-19)

Diogelu Cymru:

- cadw pellter cymdeithasol bob amser
- golchi'ch dwylo'n rheolaidd
- os ydych yn cwrdd â phobl o gartref arall, heblaw am eich aelwyd estynedig, dylech aros yn yr awyr agored
- gweithio gartref os yw'n bosibl

Dylech aros gartref a **chael prawf** os oes gennych chi neu rywun yn eich aelwyd estynedig **symptomau**

[Diogelu Sir Gâr](#)

Sefydliad Iechyd y Byd

[Rheoli Risg Ffliw Pandemig](#)

[Rhestr wirio ar gyfer rheoli risg ac effaith ffliw pandemig](#)

Comisiynydd Plant Cymru

[Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant – Mehefin 2020](#)

[Coronafeirws a fi Canlyniadau'r Arolwg – Mehefin 2020](#)

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

[Gadael Neb ar Ôl: Camau Gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn](#)

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys

Ymateb y Comisiynydd i'r Pandemig Coronafeirws (COVID-19): [Ffeithlun Cryno](#) | [Adroddiad Llawn](#)

[Rheoleiddio gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod COVID-19](#)

[Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#)

[Link to Council File Plan – Equality briefing on COVID-19 Recovery Considerations by Service type](#)

[COVID-19 Health Inequalities slides](#)

[Comisiynydd y Gymraeg](#)